# Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol Adroddiad Blynyddol 2024/25



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


Rhagair gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ............ 3
a) Crynodeb y Cyfarwyddwr ........ 3
b) Arweinyddiaeth ........ 6
Strwythur Rheoli'r Adran Cymunedau ........ 7
c) Gweithlu ........ 8
d) Adnoddau Ariannol ........ 8
e) Perfformiad ........ 9
Trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir ........ 12
Gofal Cymdeithasol i Oedolion ........ 12
Y Gwasanaethau Integredig ........ 17
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ........ 21
Yr Iaith Gymraeg ........ 31
Darpariaeth Gofal Uniongyrchol y Cyngor a Gofal a Gomisiynir ... 34
Beth mae pobl yn ei ddweud ........ 41
Gwobrau ........ 41
Gwobrau Cyflawniad Tîm ........ 42
Arolwg Gofal a Chymorth ........ 43
Arolygu ac Adolygu ........ 44
Camau Nesaf 2025/26 ........ 54
Plant a Theuluoedd ........ 54
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Integredig 55
Astudiaethau Achos ........ 56


| Trefniadau Llywodraethu |
| --- |
| • Tîm Rheoli Adrannol - 11 Ebrill 2025<br>• Craffu – 9 Mehefin 2025<br>• Cabinet – 30 Mehefin 2025<br>• Cyngor Sir - 23 Gorffennaf 2025 |

## Rhagair gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol



Dyma fy **neuddegfed** adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin a fy **mhymthegfed** fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Mae gofyniad statudol arnaf i adrodd ar y perfformiad bob blwyddyn i ddangos y gwelliannau a'r heriau sylweddol a wynebwyd gennym yn ystod 2024/25. Rwyf hefyd yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol, sef 2025/26. Fel bob amser, mae'r adroddiad yn parhau i fod yn fersiwn ddrafft wrth i ni ymgysylltu â staff ac aelodau etholedig. Mae hyn yn fy ngalluogi i ystyried adborth wrth iddo symud ymlaen i gael cymeradwyaeth derfynol.

### a) Crynodeb y Cyfarwyddwr

Ar ôl bron i 11 mlynedd fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin (ar ôl 3 blynedd yn y rôl gyda Sir Benfro), dyma fydd fy olaf fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth i mi symud i swydd newydd yn Ne Cymru. Mae'n anhygoel cyn lleied o newid sydd wedi bod o ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin, a fi yw'r trydydd Cyfarwyddwr yn unig ers ffurfio Cyngor Sir Caerfyrddin yn 1996. Y rheswm pam rydym yn aros yw'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw, a'r cyfle sydd yn Sir Gaerfyrddin i fod yn greadigol wrth wynebu'r llu o heriau sy'n perthyn i redeg un o'r gwasanaethau mwyaf heriol mewn Llywodraeth leol. Mae'r tîm rheoli corfforaethol yn gefnogol ac yn cydweithio, sy'n elfennau hanfodol os yw unrhyw adran Gwasanaethau Cymdeithasol am ffynnu.

Eleni rydym wedi parhau â'r gwaith adfer yn dilyn y pandemig, gan wneud cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd. Yn 2023/24 fe wnaethon ni lansio rhaglen uchelgeisiol i fynd i'r afael ag argyfwng recriwtio ym maes Gwaith Cymdeithasol a effeithiodd ar awdurdodau ledled y wlad. O ganlyniad i gynllun gweithredu cynhwysfawr, sefydlom ein Academi Gofal a recriwtio i ystod o hyfforddeiaethau. Erbyn hyn mae gennym ddwsinau o hyfforddeiaethau ym Mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe, a chyda'r Brifysgol Agored. Yn ddiweddarach eleni bydd yn wych gweld recriwtiaid cyntaf ein Academi Gofal yn graddio ac yn llenwi swyddi. Mae'r cyfraddau cadw gweithwyr yn arbennig bellach, ac mae strwythur graddau newydd sy'n rhoi mwy o bwys ar brofiad. Y disgwyl yw na fydd gennym unrhyw weithwyr asiantaeth erbyn mis Awst eleni, gan roi diwedd ar y drefn a berodd sut risg i Lywodraeth leol y llynedd. Yn ogystal, mae recriwtio yn gryf iawn mewn Gofal Preswyl ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion gyda Gofal Cartref yn gwella, ond yn dal i fod yn her.

Mae gwaith y Gwasanaethau Plant wedi bod yn wynebu pwysau ariannol enfawr, ac rwyf wedi parhau i gadeirio bwrdd goruchwylio i'n galluogi ni i adeiladu ar y cynnydd wnaed eisoes. Bu cynnydd sylweddol yn y maes hwn gyda'r gwelliannau allweddol yn cynnwys: Gweithlu sefydlog; Un o'r arolygiadau gorau o Wasanaethau Plant yng Nghymru sy'n dangos canlyniadau arfer sy'n gyson dda ac arweinyddiaeth gref; Diwedd ar yr holl gartrefi sy'n gweithredu heb gofrestru; Cofrestru ein cartref preswyl mewnol newydd cyntaf; Sefydlogi ein poblogaeth sy'n derbyn gofal gan ei chynnal fel y gyfradd isaf yng Nghymru; Ein Tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei raddio'n 'Rhagorol' ac ymhlith y gorau yn y DU.

Y brif her ar gyfer y flwyddyn i ddod fydd lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal (o 239 ar adeg ysgrifennu), mae'n dal i fod yn uwch na'n cyfartaledd hirdymor ac wedi codi ychydig yn y flwyddyn galendr hon. Mae'r diwylliant o atal a rheoli risg yn effeithiol wedi golygu bod Sir Gaerfyrddin wedi gallu osgoi gwahanu plant oddi wrth eu teuluoedd geni. Mae'r ymagwedd hon wedi bod yn rhan o wead y gwasanaeth am 20 mlynedd a dyma sydd wedi ein galluogi i fod ymhlith y rhai mwyaf cost-effeithiol yng Nghymru, gan fynd yn groes yn gyson i'r cyfraddau annerbyniol o uchel o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Gwelsom yn 2023 risg newid cyflym yn y maes hwn, pryd cododd y niferoedd 20% mewn dim ond 4 mis. Bydd angen rheoli perfformiad a gwyliadwriaeth gyson i wneud cynnydd pellach yn y maes hwn.

Mae cwblhau'r gwaith o ailstrwythuro ein cynnig preswyl a maethu gan symud i ffwrdd o'r ddarpariaeth sector preifat a oedd, ar adegau, yn ecsbloetio'r prinder lleoliadau, yn hanfodol i ddarparu lleoliadau lleol ar gost ac ansawdd rhagweladwy a chyson. Bydd integreiddio rheoli perfformiad ar draws plant ac oedolion yn hanfodol i gael gwasanaethau plant i sefyllfa lle mae gan reolwyr rheng flaen fynediad at ddangosfyrddau byw y gallant eu defnyddio i ddylanwadu ar ymarfer.

Mae gwasanaethau i bobl hŷn wedi bod yn llwyddiannus iawn eleni o ran mynd yn groes i'r duedd ddemograffig a lleihau'n sylweddol nifer y bobl hŷn mewn gofal preswyl. Rydym yn paratoi ar gyfer twf a fydd yn gweld cynnydd sylweddol yn yr angen am welyau nyrsio preswyl ac erbyn hyn mae gennym gynlluniau i ddarparu unedau mewnol newydd ym Mhentre Awel, Crosshands a Chaerfyrddin os gellir sicrhau cyllid. Bydd hyn yn ategu marchnad fywiog sydd wedi gweld cartref nyrsio preswyl 72 gwely yn agor yn Llanelli yn ddiweddar. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i ddarparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen arnom ac yn edrych ar gontractio bloc fel ffordd y gallwn roi rhagor o sicrwydd i ddarparwyr da. Mae angen gwneud gwaith adnewyddu helaeth yn ein cartrefi preswyl presennol o hyd.

Mae gofal cartref hefyd yn sefydlog. Mae angen mwy o gapasiti ar ailalluogi wrth i ni gyfeirio mwy o bobl hŷn trwy'r llwybr gofal hwn. Rydym wedi cynnal ein huchelgais i gynyddu cyfran y farchnad ar gyfer gofal cartref mewnol ond nid ydym wedi gwneud cynnydd eleni oherwydd, er gwaethaf talu'r gyfradd uchaf fesul awr yng Nghymru, mae lefelau cadw staff a salwch wedi parhau i fod yn her. Yn ffodus, mae'r sector preifat yn parhau i fod yn sefydlog ac yn cyflawni'n gyson.

Bydd sefydlu model o integreiddio pellach gydag Iechyd, o bosibl ar lefel leol, yn bwysig eleni gan fod y Gwasanaeth Iechyd dan straen ddifrifol a chan fod gostyngiad sylweddol wedi bod mewn buddsoddiad mewn gwasanaethau cymunedol dros y deng mlynedd diwethaf. Mae lefelau anesboniadwy o isel o fuddsoddiad mewn gofal nyrsio a Gofal Iechyd Parhaus (yr isaf yng Nghymru o bell ffordd) yn rhoi pwysau, yn fy marn i, ar y system Ysbytai a Gofal Cymdeithasol ac ni ellir ei chynnal.

Mae Llesiant Delta, mawr ei fri a'i wobrau, yn para'n arweinydd marchnad ym maes technoleg, ac rydym yn cyflwyno datblygiad newydd cyffrous o dechnoleg ataliol a fydd yn ceisio hybu iechyd a chefnogaeth canolfan alwadau i fwy o bobl nag erioed o'r blaen.

Ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu, mae cyflymder datblygu llety cefnogol wedi cynyddu ac wedi cyfrannu at well sefyllfa gyllidebol. Bydd angen i'r cyflymder hwn

gynyddu ymhellach (yn enwedig o ran pontio o ofal preswyl plant) a bydd yn allweddol bod Pennaeth Gwasanaeth newydd y maes hwn yn canolbwyntio ar hyn. Llongyfarchiadau i Avril Bracey, ein Pennaeth Gwasanaethau Oedolion sy'n ymddeol cyn bo hir, a gafodd ei chydnabod yn genedlaethol am 'Arweinyddiaeth Ysbrydoledig' yn yr Anrhydeddau Gofal Cymdeithasol diweddaraf.

Mae Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae gwaith rhagorol wedi'i gwblhau ar atal hunanladdiad. Mae'r maes hwn yn bryder gwirioneddol ac mae cyfraddau cynyddol yn y sir. Mae'r gostyngiad yn y rhai sy'n aros am asesiad yn llwyddiant sylweddol ym mhob maes gwaith cymdeithasol oedolion, a braf yw gweld y grŵp ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy yn sefydlog am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r gweithlu sy'n cyflawni dros bobl Sir Gaerfyrddin. Y staff a'r timau maen nhw'n gweithio ynddynt yw asgwrn cefn unrhyw Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac maen nhw'n cynrychioli'r gorau o'r sir wych hon. Bod yn Gyfarwyddwr yma yw uchafbwynt fy ngyrfa, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y datblygiadau newydd fydd yn dod i'r fei yn awr dan arweinyddiaeth newydd.

***Jake Morgan***
***Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol***

## b) Arweinyddiaeth

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i strwythuro'n sawl adran, ac mae pob un yn gyfrifol am wahanol feysydd gwasanaeth. Gallai'r adrannau hyn gynnwys:

| | |
|---|---|
| 1 | **Y Prif Weithredwr:** Yn trin y strategaeth gorfforaethol, gwasanaethau democrataidd, gwasanaethau cyfreithiol. |
| 2 | **Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**: Yn canolbwyntio ar addysg, ysgolion, gofal cymdeithasol plant, maethu a gwasanaethau ieuenctid. |
| 3 | **Gwasanaethau Corfforaethol:** Yn rheoli cyllid, caffael, y gyflogres, a phensiynau. |
| 4 | **Cymunedau:** Yn cwmpasu diogelu oedolion, tai, diogelu'r cyhoedd, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol ac iechyd integredig, hamdden a diwylliant. |
| 5 | **Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd:** Yn delio â chynllunio, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, asedau eiddo, priffyrdd ac adfywio. |

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys 75 o Gynghorwyr etholedig, sy'n cynrychioli 51 o Wardiau etholiadol. Mae'r Cynghorwyr hyn yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am wasanaethau, cyllidebau a pholisïau lleol.

Mae 10 o aelodau ar y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor. Mae pob Aelod Cabinet yn goruchwylio portffolio penodol, megis addysg, iechyd, trafnidiaeth, neu newid yn yr hinsawdd. Yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yw Jane Tremlett.

Arweiniwyd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2024/25 gan Bennaeth y Gwasanaethau Integredig (Joanna Jones); mae hon yn swydd sy'n cael ei hariannu ar y cyd ag Iechyd; Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, Avril Bracey; Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Jan Coles a Phennaeth Comisiynu ar y cyd (ariennir ar y cyd â Sir Benfro) Chris Harrison:

# Strwythur Rheoli'r Adran Cymunedau



**Ian Jones**

Pennaeth Hamdden a Diogelur Cyhoedd

Head of Leisure & Public Protection



**Jonathan Morgan**

Pennaeth Tai

Head of Housing



**Avril Bracey**

Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Head of Adult Social Care



**Joanna Jones**

Pennaeth Gwasanaethau Integredig (Dros-Dro)

Head of Integrated Services (Interim)



**Catherine Evans**

Uwch Reolwr, Rheoli Prosiectau a Dadansoddi Data

Senior Manager, Project Management & Data Analytics



## Jake Morgan

## Cyfarwyddwr Cymunedau

## Director of Communities



**Chris Harrison**

Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd (Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin)

Head of Strategic Joint Commissioning (Pembs and Carms)



**Kate Morgan**

Uwch Partner Business AD

Lead Business Partner HR



**Jonathan Fearn**

Pennaeth Tai, Eiddo a Phrosiectau Strategol

Head of Housing Property and Strategic Projects



**Jan Coles**

Penaeth Gwasanaethau Plant a Theuloedd

Head of Children and Families




**Dylan Jones**

Cyfrifydd Grŵp

Group Accountant

## c) Gweithlu

Fel y nodwyd yn fy nghyflwyniad, mae'r gweithlu bellach wedi sefydlogi ar draws y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth. Rydym yn defnyddio methodoleg sgôr hyrwyddwr net mewn arolwg blynyddol i'r holl staff. Mae'n ategu'r broses gorfforaethol ac yn ceisio deall profiadau gweithwyr sy'n gweithio yn eu priod is-adrannau, a chaiff ei gynnal bob blwyddyn, drwy ofyn un cwestiwn pwerus: "Pa mor debygol fyddech o argymell eich is-adran fel cyflogwr i rywun rydych yn ei adnabod?" Cafwyd 674 o ymatebion i arolwg 2024. Yn seiliedig ar sgorio NPS, roedd y sgôr gyffredinol ar gyfer yr Adran Cymunedau yn **Dda.**




**Dysgu a Datblygu:** Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yn 2024/25, gan gynnwys pynciau fel y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gwneud penderfyniadau er Budd Pennaf, awtistiaeth, a diweddariadau cyfreithiol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, gyda fformatau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Yn ogystal, mae'n rhestru hyfforddiant datblygu proffesiynol ar gyfer y Gwasanaethau Plant, sy'n cwmpasu meysydd fel camfanteisio ar blant, ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, a chefnogaeth i geiswyr lloches, gan roi pwyslais ar natur gynhwysfawr yr hyfforddiant a gynigir. Mae ein grŵp diogelu corfforaethol newydd wedi goruchwylio hyfforddiant sylweddol ar draws pob cyfarwyddiaeth.

**Recriwtio a Chadw:** Mae'r lefelau recriwtio a chadw staff bellach yn dda ym mhob maes bron. Mae ein gwasanaeth gofal cartref mewnol yn wynebu heriau o ran recriwtio a chadw ac mae ystod o fentrau wedi'u targedu i fynd i'r afael â hyn. Mae creu gweithlu cynaliadwy yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Mae ein strategaeth 'tyfu ein gweithwyr ein hunain' yn llwyddo ac ar hyn o bryd rydym yn cefnogi unigolion i ddilyn Graddau Gwaith Cymdeithasol rhan-amser y Brifysgol Agored a Rhaglenni Meistr amser llawn ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, ac mae disgwyl i 40 gwblhau eu hastudiaethau o fewn y tair blynedd nesaf.

Mae'r Academi Gofal, sef y cyntaf o'i math yng Nghymru, bellach wedi'i sefydlu'n dda ac ar hyn o bryd mae gennym ddeuddeg unigolyn ar y rhaglen hon. Mae'r unigolion ar leoliad mewn lleoliadau gofal, ac felly maent yn ennill profiad wrth ymgymryd â'u cymwysterau gofal. Byddant yn mynd ymlaen i gael cefnogaeth er mwyn dilyn gyrfa mewn rheoli neu waith cymdeithasol. Rydym yn disgwyl i lawer raddio fel Gweithwyr Cymdeithasol yn ddiweddarach eleni.

## d) Adnoddau Ariannol


Bu buddsoddiad enfawr yn y Gwasanaethau Plant er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg capasiti a'r costau gofal preswyl. Er ein bod bob amser wedi gwario llai na'r rhan fwyaf o awdurdodau ar wasanaethau plant (oherwydd nifer fach y plant sy'n derbyn gofal), nid yw cynnydd ar y gyfradd hon yn gynaliadwy a bydd cryn ffocws yn y flwyddyn i ddod ar le mae'n rhaid i'r gwasanaeth reoli gwariant.

Mae cynnydd wedi bod yn y gwasanaethau oedolion er mwyn adleisio twf democrataidd, cynnydd mewn yswiriant gwladol a chostau cyflog byw gwirioneddol yn fewnol, ac ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd.

| | **Cyllideb 2023-24** | **Cyllideb 2024-25** | **Symud** |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 31,889 | 41,186 | 9,297 |
| Strategaeth y Gwasanaeth - gwasanaethau cymdeithasol i oedolion | 872 | 892 | 20 |
| Pobl hŷn (65 oed a hŷn) gan gynnwys pobl hŷn â salwch meddwl | 65,048 | 66,470 | 1,422 |
| Oedolion dan 65 oed ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau | 6,832 | 7,480 | 648 |
| Oedolion dan 65 oed ag anableddau dysgu | 40,128 | 45,443 | 5,315 |
| Oedolion dan 65 oed ag anghenion iechyd meddwl | 8,174 | 8,855 | 681 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion eraill | 1,253 | 1,376 | 123 |
| | | | |
| | **154,196** | **171,702** | **17,506** |

## e) Perfformiad


Mae'r data isod yn cyflwyno lefel gyffredinol y gweithgarwch ym mhrif feysydd y gwasanaeth.
Mae'r siart isod yn dangos nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.




Mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys Ceiswyr Lloches Digwmni (hyd at 37) nad oeddent yn derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin yn y gorffennol. Adeg ysgrifennu'r adroddiad, y nifer heb gyfri'r rhain yw 239 ac mae wedi codi ychydig ers mis Ionawr, er mai dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru o hyd o bell ffordd. Lleihau hyn yw'r flaenoriaeth i'r gwasanaeth, gyda'r angen am allu gadael y system ofal yn gynt. Mae'r her hon yn parhau.

Mae'r gofrestr amddiffyn plant yn isel o gymharu â'r rhan fwyaf o awdurdodau, yn unol â thueddiadau tymor hir, er ei fod yn codi ym mis Ebrill eleni, mae angen monitro hyn yn agos. Mae ail-gofrestriadau'n parhau i fod yn isel.

Mae'r siart drosodd yn dangos nifer y bobl sy'n derbyn gofal cartref ac sy'n aros am ofal cartref o ystyried y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth.




Er gwaethaf y twf demograffig, mae rheoli'r galw gyda dewisiadau amgen wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae rhestrau aros am ofal yn is nag erioed.
Mae'r siart isod yn dangos nifer y bobl sy'n derbyn gofal preswyl a'r cynnydd amcangyfrifedig yn y boblogaeth.



Mae gennym ormod o bobl hŷn mewn gofal preswyl er bod y tîm wedi cael cryn lwyddiant yn lleihau hyn dros y 6 mis diwethaf.  Adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae'r cyfraddau bellach yn ôl i lefelau 2023. Mae'r gostyngiad o bron i 50% yn y cyllid ar gyfer gwelyau nyrsio gan y Bwrdd Iechyd wedi rhoi pwysau sylweddol ar y sector preswyl a bydd angen mynd i'r afael â hyn.

Fframwaith Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Oedolion.

| Cyf. Mesur | Mesur | Ffigur Diwedd y Flwyddyn |
|---|---|---|
| AD/001a | Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer oedolion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn. | 20,623 |
| AD/001b | Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd ar gyfer oedolion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn. | 16,411 |
| AD/002 | Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth. | 2,395 |
| AD/004 | Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn | 4,918 |
| AD/005a | Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth yr oedd modd diwallu anghenion | 1,484 |
| AD/005b | Roedd modd diwallu anghenion mewn modd arall | 2,951 |
| OC/005c | Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu | 483 |
| AD/012a | Nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth | 3,222 |
| AD/012b | Nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a chynllun cymorth i ofalwyr, lle mae gan yr oedolyn ei anghenion gofal a chymorth ei hun a'i gyfrifoldebau fel gofalwr. | 100 |

Fframwaith Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

| Cyf. Mesur | Mesur | Ffigur Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|
| CH/001 | Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn | 18695 |
| CH002 | Nifer y cysylltiadau newydd ar gyfer plant a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth | 7512 |
| CH/006 | Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn | 1320 |
| CH/007 | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:<br>a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth yr oedd modd diwallu anghenion<br>b. Roedd modd diwallu anghenion mewn modd arall | <br>613<br>649 |
| CH/015 | Nifer y plant sydd â chynllun gofal a chymorth ar 31 Rhagfyr 2024 | 1623 |
| | Perfformiad plant sy'n destun ailasesiad wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn. | 4.5% |

# Trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn is-adran amrywiol fawr sy'n cynnwys amrywiaeth o dimau a gwasanaethau: Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl, Defnyddio Sylweddau ac Adfer, Diogelu, Gwasanaethau Dydd a Seibiant a Gofal Cartref.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynnydd yn y galw a'r cymhlethdod ar draws yr holl wasanaethau. Mae'r heriau hyn, yn ystod cyfnod o gyni cyllidol, wedi arwain at heriau digynsail i'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ar ben hynny, rydym wedi wynebu heriau recriwtio a chadw, yn enwedig mewn perthynas â gwaith cymdeithasol a gofal cartref. Mae adeiladu gweithlu cynaliadwy dal yn flaenoriaeth allweddol ac mae ein strategaeth 'tyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain' yn llwyddo.

Mae recriwtio i swyddi gwaith cymdeithasol mewn rhai meysydd yn para i fod yn her yr ydym yn mynd i'r afael â hi trwy newid yn greadigol swyddi i Gynorthwywyr Gwaith Cymdeithasol a chefnogi staff presennol i hyfforddi fel Gweithwyr Cymdeithasol. Ar hyn o bryd o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion mae gennym 8 aelod o staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol, gan astudio naill ai trwy'r Brifysgol Agored neu'r llwybr Meistr, bydd chwech yn cymhwyso yn 2026 a dau yn 2027. Byddai hyn yn helpu i gynllunio ein gweithlu yn y dyfodol.

Mae tri Chynorthwyydd Gwaith Cymdeithasol gafodd eu secondio i Brifysgol Abertawe wedi dychwelyd i weithio mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar ôl llwyddo i gwblhau'r

radd meistr mewn gwaith cymdeithasol. Rydym wedi recriwtio carfan arall o unigolion i'r Academi Gofal eleni, ac mae tri o hyfforddeion yr Academi yn ymgymryd â'r cymwysterau Gwaith Cymdeithasol yn gynt o lawer na'r disgwyl.  Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, rydym wedi recriwtio'n llawn i'r tîm Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) y tu allan i oriau. Mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, mae datblygu staff yn flaenoriaeth, wrth i staff ar draws yr is-adran achub ar gyfleoedd hyfforddi, ac mae sawl enghraifft o'r rhagoriaeth a gyflawnwyd mewn gwobrau rheoli, hyfforddiant cymhwyso gwaith cymdeithasol proffesiynol a hyfforddiant ôl-gymhwyso.

Rydym wedi sefydlu Fframwaith Dilyniant ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi gweithwyr cymdeithasol profiadol i symud ymlaen i lefel Uwch-ymarferydd ar ôl cyflwyno portffolio o dystiolaeth. Mae tua 70 o Weithwyr Cymdeithasol wedi symud ymlaen trwy'r fframwaith hyd yma sy'n effeithio'n gadarnhaol ar gyfraddau cadw.

Mae prosiect peilot ar gyfer asiantaeth fewnol hefyd wedi llwyddo i fynd i'r afael â heriau recriwtio mewn gofal preswyl, a lleihau costau asiantaeth. Mae'r peilot hwn i'w gyflwyno i feysydd eraill eleni.

Mae recriwtio mewn gofal cartref yn parhau i fod yn her sy'n effeithio ar ein prif amcan i dyfu cyfran fewnol y farchnad gofal cartref. Penodwyd Unigolyn Cyfrifol newydd i'r gwasanaeth gofal cartref ym mis Hydref 2024 ac mae eisoes yn cyflwyno mentrau i wella recriwtio. Mae wedi bod yn aeaf heriol iawn gyda sawl storm gan gynnwys Storm Darragh, gweithiodd y tîm gofal cartref yn hynod dda o dan amgylchiadau anodd iawn a sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i gael ei ddarparu i safon uchel.  Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno rhaglen sefydlu lwyddiannus sy'n cael ei gwerthuso'n gadarnhaol gan recriwtiaid newydd. Mae ailstrwythuro wedi digwydd o fewn tîm cymorth y system i alluogi gwasanaeth mwy effeithiol, prydlon ac i gefnogi'r tîm y tu allan i oriau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau gwaith cymdeithasol i alluogi'r unigolion hynny sy'n cael gofal diwedd oes i aros gartref. Isod mae rhai o'r sylwadau canmoliaethus sy'n dangos gwaith caled, angerdd ac ymroddiad y staff i'r swydd.

> **“Gosododd Mam y 'bar yn uchel iawn' ar gyfer popeth yn ei bywyd.  Felly hefyd ei gofalwyr.  O gael pobl fyddai'n cofio golchi ei gwallt ar ddiwrnod penodol bob wythnos, ei helpu i wisgo'n addas os oedd hi'n cwrdd â ffrind i gael coffi rhyw fore (hyd yn oed ychwanegu eitemau bach o emwaith); pethau sy'n swnio'n ddibwys efallai ond roedden nhw mor bwysig i mam. Ar yr adeg honno o'i bywyd, fe wnaeth wahaniaeth enfawr.”**

O ran ailalluogi, rydym wedi llwyddo i sefydlu trefniant brysbennu ar gyfer gofal canolraddol gyda chydweithwyr iechyd; y tîm Gartref yn Gyntaf. Mae hyn yn cael effaith ar lif ysbytai a lleihau rhestrau aros.

Mae'r gwasanaeth lleoliadau oedolion Cysylltu Bywydau wedi cynyddu ei wasanaethau ledled y rhanbarth, gan gynnig opsiynau cymorth amrywiol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at drawsnewid unigolion o leoliadau preswyl i Cysylltu Bywydau, mae hyn yn cefnogi ein prif amcan i leihau dibyniaeth ar ofal preswyl. Mae gwelliannau wedi parhau mewn arferion a gweithdrefnau gweithredol. Rydym wedi sefydlu llwybrau a phrosesau ar gyfer unigolion sy'n trosglwyddo o faethu i Gysylltu Bywydau oedolion. Rydym wedi gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'r tîm Dysgu a Datblygu i ddarparu adnoddau hyfforddi ar gyfer Gofalwyr Cysylltu Bywydau

Mae ein taith trawsnewid o ran cyfleoedd dydd anabledd dysgu wedi cael croeso twymgalon gan y tîm staff, sydd yn arloesol drwy'r amser. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda phrosiectau cymunedol lleol, gyda gwasanaethau hamdden, a'r trydydd sector e.e. Arts Gofal Celf. Ein prif nod yw datblygu ac ymestyn oriau cyfle dydd i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu a phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r hwb sgiliau yn mynd o nerth i nerth, ac rydym yn cydweithio â'r gwasanaethau hamdden i gynyddu cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth. Ar hyn o bryd, mae saith unigolyn yn gwirfoddoli yng nghaffi Llyn Lech Owain, lle maent yn ennill profiad mewn hylendid bwyd a gofal cwsmeriaid. Ein nod yw cynnig profiad gwaith, gwneud y mwyaf o botensial unigol a darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth â chymorth a thâl yn y dyfodol.

**Sylw gan wirfoddolwr:**

> "Rwy'n dwlu ar fod yn Llyn Llech Owain. Rwy'n gweithio'n galed iawn. Mae gen i gymhwyster da. Rwy'n hoffi'r cwsmeriaid rheolaidd a'u cŵn; rydw i wedi gwneud llawer o ffrindiau ac mae fy hyder wedi gwella. Rwy'n fwy hyderus yn gwneud y diodydd ac yn defnyddio'r peiriannau ar fy mhen fy hun. Rwy'n gallu gwneud Americano, Te, Latte a Siocled Poeth. Rwy'n defnyddio'r peiriant cardiau a'r til fel y staff hefyd. Rwy'n hapus iawn."

Mae Seibiant Preswyl Tir Einon yn parhau i ddarparu cymorth i unigolion ag anghenion cymhleth ac wedi gallu ymateb i leoliadau brys.  Ein prif amcan yw cynyddu a datblygu llety seibiant mewnol ychwanegol. Rydym yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau hamdden i ddatblygu ystod o opsiynau seibiant o lefel isel i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Un o brif amcanion Gofal Cymdeithasol i Oedolion fu datblygu ystod o lety â chymorth i leihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl. Mae hyn yn gwella canlyniadau, ac yn hyrwyddo annibyniaeth a dewis unigolion.  Rydym wedi sefydlu strwythur llywodraethu newydd ar gyfer y gwaith hwn a nodwyd fel maes gwella y llynedd. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran symud unigolion i lawr o ofal preswyl i lety â chymorth.  Rydym wedi datblygu 9 lleoliad newydd yn y 3 blynedd diwethaf. Mae 7 ar waith ar hyn o bryd. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae 45 o bobl wedi symud i fyw â chymorth.

Rydym yn gwella ein dulliau cynllunio ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n pontio ac yn cydweithio â gwasanaethau plant, tai a chomisiynu i sicrhau y bydd pobl ifanc yn gallu aros yn ardal eu cartref. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu sawl cynllun byw â chymorth a fydd yn darparu mwy o leoliadau annibynnol i bobl ifanc sy'n pontio. Mae'r Tîm 0-25 wedi parhau i gefnogi'r galw cynyddol am eu gwasanaeth. Maent wedi cyflwyno 4ydd POD sy'n darparu mwy o gapasiti a goruchwyliaeth o'u llwyth achosion. Mae'r Tîm wedi llwyddo i leihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth wedi'i gynllunio er gwaethaf y galw cynyddol am asesu.

Mae'r llwybr llesiant iechyd meddwl ledled Sir Gaerfyrddin wedi'i sefydlu'n dda. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar ac atal yn ogystal â chefnogi unigolion ag anghenion gofal a chymorth cymwys o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

> **“Mae fy ngweithiwr wedi bod yn arbennig... mae'n broffesiynol, yn arloesol ac yn barod ei gymorth.  Rwy'n ddiolchgar iawn.”**

Sefydlwyd grŵp celcio newydd yn Hydref 2024 mewn cydweithrediad â phartneriaid trydydd sector, ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae creu dau weithiwr cymdeithasol pontio sy'n cefnogi pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl cymhleth wrth iddynt symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn gam cadarnhaol. Rydym eisoes yn gweld manteision y rôl hon fel model ar gyfer gweithio ar y cyd.

Newidiodd y tîm camddefnyddio sylweddau ei enw yn 2024 i'r Tîm Defnyddio ac Adfer Sylweddau (SURT) yn dilyn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac asiantaethau partneriaeth. Bydd y newid yn lleihau rhwystrau i ymgysylltu ac yn adlewyrchu gwaith cadarnhaol y tîm. Mae enghreifftiau o waith y tîm dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys camu i lawr yn llwyddiannus o ofal preswyl unigolion â  Niwed i’r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol (ARBD) trwy ddefnydd arloesol o lety. Parhau i bartneriaethau gyda chydweithwyr tai a'r trydydd sector i gynnig tŷ adfer cymunedol yn Sir Gaerfyrddin gan weithio tuag at opsiynau camu i lawr wedi'u teilwra yn seiliedig ar angen.

Mae tîm SURT yn parhau i gymryd rhan yng Ngweithgor arloesol Alcohol Change UK ar gyfer llety i yfwyr sy'n gwrthsefyll newid, nhw yw'r unig dîm o Gymru i gymryd rhan yn y fenter hon.

Mae ein tîm dilyniant ac adolygu wedi gwneud cynnydd o ran camu pobl i lawr o ofal preswyl ac wedi sicrhau bod unigolion yn byw mor annibynnol â phosibl ac nad ydym yn gorddarparu. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar dargedau'r is-adran o ran arbedion. Ar y cyfan, mae diwylliant cadarnhaol "gallu gwneud" ar draws y timau, mae morâl yn dda, ac mae trosiant yn isel. Mae perthnasoedd o fewn y tîm a'r tu allan iddo'n gadarnhaol ac rydym wedi gweld tystiolaeth o ymatebion cydweithredol rhagorol i argyfyngau, ac mae staff yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod unigolion yn cael eu diogelu. Ar yr adegau hyn rydym yn gweld bod rhwystrau wedi'u gwaredu a bod gwasanaethau ddim yn gweithio mewn seilos.

Yn 2023, fe wnaethom sefydlu ymateb cyflym i hunanladdiad a amheuir sy'n ein galluogi i estyn allan ar unwaith at y rhai yr effeithir arnynt a chynnig cefnogaeth. Mae hyn wedi'i sefydlu bellach yn Sir Gaerfyrddin. Rydym hefyd wedi ailsefydlu'r grŵp atal hunanladdiad sy'n gweithio ar strategaeth a chynllun gweithredu atal hunanladdiad ar gyfer y Sir. Rydym wedi cael arian grant i gyflogi swyddog atal hunanladdiad am ddwy flynedd er mwyn parhau i nodi cefnogaeth a gwasanaethau, yn ogystal â'r rhwystrau i'r rhai sy'n ceisio cymorth. Bydd y gwaith hwn yn llywio lluniad ein strategaeth atal, a bydd y swyddog yn hanfodol wrth weithredu'r strategaeth atal hunanladdiad newydd a fydd yn cael ei chyhoeddi eleni.

O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd mewn gwaith diogelu a chynnydd o ran cymhlethdod yr atgyfeiriadau, ond rydym yn parhau i gyflawni gwasanaeth cadarn ac i arwain ar lawer o brosiectau rhanbarthol. Mae'r Uwch-reolwr (Diogelu) yn arweinydd Diogelu Corfforaethol sy'n cydnabod y safonau ymarfer uchel a gyrhaeddwyd ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae hyn wedi bod yn ffocws sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn a sicrhau bod diogelu yn fater i bawb. O fewn y tîm diogelu oedolion, bu newidiadau strwythurol i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r cymhlethdod a'r galw cynyddol ac arwain ar sawl fforwm aml-asiantaeth fel MARAC/Channel, Atal Hunanladdiad, APR, Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol a VAWDASV.

O fewn Anableddau Dysgu mae proses ariannu ar y cyd sydd newydd ei sefydlu yn dilyn prosiect peilot yn gweithio'n dda, mae perthnasoedd gwaith gwell ac mae Sir Gaerfyrddin yn cynnal gweithdy arfer da rhanbarthol i arddangos y gwaith rydym wedi'i wneud yn y maes hwn.

Mae cefnogi gofalwyr i barhau yn eu rôl ofalu yn flaenoriaeth i'r is-adran; mae Arweinwyr Gofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol ac mae pob tîm naill ai wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau'r Gwobrau Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithgareddau i rannu gwybodaeth â gofalwyr a hyrwyddo materion gofalwyr o fewn eu timau. Y llynedd, gwnaethom gydnabod yr angen am wella ein hymgysylltiad â gofalwyr, felly yn gynharach eleni fe wnaethom gynnal cynhadledd i sicrhau dull cydgynhyrchiol o lywio'r gwaith hwn. Nododd y gynhadledd sawl maes i'w gwella ac mae gwaith yn cael ei wneud ar gynllun gweithredu i ymateb i'r meysydd hyn. Yr haf hwn rydym yn bwriadu cynnal digwyddiad dilynol i roi gwybod i gyfranogwyr beth rydym wedi'i wneud ers cynhadledd y llynedd. Fe wnaethom hefyd gomisiynu archwiliad mewnol eleni ar

asesiadau gofalwyr. Rwyf yn falch o gadarnhau ei fod yn adroddiad cadarnhaol gydag ond dau argymhelliad yr ydym yn eu gweithredu.

Mae ein tîm dilyniant ac adolygu wedi gwneud cynnydd o ran camu pobl i lawr o ofal preswyl ac wedi sicrhau bod unigolion yn byw mor annibynnol â phosibl ac nad ydym yn gorddarparu. Mae hyn hefyd wedi cael effaith sylweddol ar ein targedau arbedion. Er ein bod wedi gwneud cynnydd wrth gyflawni ein prif amcan i leihau dibyniaeth ar ofal preswyl, mae datblygu opsiynau llety eraill wedi bod yn arafach na'r disgwyl felly bydd angen i ni symud ymlaen â'r rhaglen waith hon yn gyflym yn ystod 2025.
Mae gennym raglen uchelgeisiol i dyfu ein gwasanaeth gofal cartref mewnol, ond bydd angen i ni fynd i'r afael â'n heriau recriwtio a sicrhau ein bod yn gweithredu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r amcan hwn.

Er mwyn sicrhau gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion cynaliadwy yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym strategaeth atal gadarn i ddarparu cyngor, gwybodaeth, cymorth, ymyrraeth gynnar, cymorth i ofalwyr, ac ymateb amserol i'r rhai sydd mewn argyfwng. Bydd hyn yn caniatáu i ni helpu pobl i fod yn annibynnol am gyn hired â phosib, gwella canlyniadau ac atal pethau rhag gwaethygu. Bydd cydweithio â phartneriaid statudol, cydweithwyr trydydd sector, a defnyddwyr gwasanaeth yn helpu i ddilysu blaenoriaethau. Er gwaethaf cyni ariannol a galw cynyddol, mae angen hyfforddiant, cydnabyddiaeth a chefnogaeth ar staff i ymateb i heriau sydd i ddod. Felly mae llesiant staff yn hanfodol i gynorthwyo'n effeithiol y rhai sydd angen gofal a chymorth.

## Y Gwasanaethau Integredig

Mae'r Gwasanaethau Integredig yn darparu gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y gymuned ar draws yr Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl ag Anabledd Corfforol neu Nam ar y Synhwyrau. Mae'r integreiddio hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n pwysleisio cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i wella llesiant unigolion. Rydym yn cydnabod bod "pob person yn bartner cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.”

Mae yna waith partneriaeth sylweddol gyda Llesiant Delta, cwmni masnachu hyd braich y Cyngor, sy'n darparu gofal rhagweithiol seiliedig ar dechnoleg; Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth acíwt mewn wardiau ysbyty, ac ymateb cwymp cyflym yn y gymuned ynghyd â'n gwasanaeth Tu Allan i Oriau; ein partneriaid trydydd sector, sy'n hanfodol i ddatblygu a chyflawni gwasanaethau ataliol cymunedol yn ogystal â gwasanaethau gofal hirdymor. Bydd eu rôl atal yn cael ei hehangu yn y flwyddyn i ddod.

Mae gan Sir Gaerfyrddin gytundeb Adran 33 ar waith ers 2009, sy'n ffurfio sylfaen strwythurau rheoli integredig ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cytundeb hwn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n hyrwyddo dull integredig o ddarparu gwasanaethau. Mae llunio amserlenni penodol i wasanaethau wedi dechrau, gan fanylu ar wasanaethau penodol o fewn y Gwasanaethau Integredig, eu rhyngweithiadau, a'r cyfrifiadau ariannol a'r gweithdrefnau rheoli.

Rydym wedi dangos cynnydd rhyfeddol wrth fynd i'r afael ag anghenion ein cymuned, yn enwedig y boblogaeth sy'n heneiddio, ymrwymiad i fodloni blaenoriaethau deddfwriaethol, a ffocws strategol ar bedwar maes allweddol: Gofal Rhagweithiol a Chynlluniedig, Gofal Hirdymor, Llif System a Gofal Brys, ac Atal. Mae arosiadau mewn ysbytai ac yn y gymuned am asesiadau yn llai nag erioed.

Mae twf mawr wedi bod ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n heneiddio, gydag amcanestyniadau yn dangos tuedd barhaus i fyny. Ar hyn o bryd, mae dros 20% o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn, a disgwylir i'r ffigur hwn godi i 25% erbyn 2035 a pharhau i godi ar gyfradd o 3.5% y flwyddyn tan 2044. Mae newidiadau demograffig o'r fath yn golygu bod angen gwasanaethau integredig cadarn ac addasol i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol. Er gwaetha'r heriau hyn, rydym yn parhau i arloesi, gan chwilio am ddulliau newydd i reoli'r galw a lliniaru risgiau tra'n sicrhau diogelwch ein cleientiaid. Ariennir y gwasanaeth diwygiedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol.

Mae ein mentrau gofal rhagweithiol a chynlluniedig yn pwysleisio ymyrraeth gynnar a chreu cynlluniau gofal a chymorth cydgysylltiedig sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol. Rydym wedi gweithredu cynlluniau gofal personol yn llwyddiannus ar gyfer dros 5,000 o breswylwyr, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty yn sylweddol a gwella canlyniadau iechyd cyffredinol. Mae'r dull cynhwysfawr hefyd wedi cyfrannu at leihau hyd yr arhosiad yn yr ysbyty, gan ganiatáu i gleifion ddychwelyd adref yn gynt a gyda chymorth pwrpasol.

Mae defnyddio technoleg uwch ac adnoddau cymunedol wedi bod yn allweddol i gyflawni'r canlyniadau hyn. Rydym yn canolbwyntio ar integreiddio atebion digidol, fel teleiechyd a monitro o bell, i ddarparu gofal parhaus a sicrhau ymyrraeth amserol. Mae'r integreiddio hwn nid yn unig yn gwella effeithlonrwydd darparu gwasanaethau ond hefyd yn grymuso ein preswylwyr i reoli eu hiechyd eu hunain yn fwy effeithiol.

Mae cryn waith wedi'i wneud yn Siop Offer Cymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin yn dilyn adolygiad gwasanaeth cyfan. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod unigolion yn cael yr offer sydd ei angen arnynt i fyw mor annibynnol â phosibl a lleihau'r risg o gynnydd mewn dibyniaeth a derbyniadau i'r ysbyty. Mae cynllun prosiect yn cael ei weithredu i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach er mwyn gwneud cymaint o arbedion effeithlonrwydd ag sy'n bosib a symleiddio prosesau. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Sir Benfro a Cheredigion a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn Aliniad Rhanbarthol y Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol (RACES).

Ar ben hynny, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo hawliau gofalwyr di-dâl, gan sicrhau eu bod yn derbyn cymorth digonol yn eu rolau hanfodol. Drwy gynnig hyfforddiant, gwasanaethau seibiant a chymorth ariannol, rydym yn cydnabod ac yn gwella eu cyfraniad amhrisiadwy i lesiant ein cymuned gan weithio ar y cyd â Phartneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn unol â'n Strategaeth Gofalwyr.Ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at ein gwobrau Buddsoddwyr mewn Gofalwyr Efydd ac Arian. Mae partneriaeth gyda Hamdden yn rhoi seibiannau i ofalwyr ym Mhentywyn yn ein gwesty sy'n cael ei redeg gan y Cyngor.

Er mwyn ymgysylltu rhagor â defnyddwyr gwasanaeth, mae'r awdurdod lleol bellach yn arolygu pob unigolyn sy'n derbyn asesiadau o'u hanghenion gofal a chymorth, yn ogystal â'u gofalwyr. Cynhyrchwyd yr arolwg hwn ar y cyd â grwpiau eiriolaeth defnyddwyr gwasanaeth i wneud yn siŵr bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani mor berthnasol â phosibl, maent yn cael eu hanfon bob hanner blwyddyn.
Ar ôl hynny, paratoir adroddiad sy'n cynnwys canlyniadau'r arolwg sy'n cael eu cyflwyno i fwrdd Ymarfer a Phroses yr awdurdod lleol sy'n cynnwys uwch-reolwyr ar draws dwy is-adran gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan y bwrdd i hyrwyddo arfer da ac i edrych ar unrhyw gamau mae angen eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godwyd ac i wella arferion ar draws y gwasanaeth. Yn ogystal, fel rhan o oruchwyliaeth staff gwaith cymdeithasol, mae'r goruchwyliwr yn cysylltu ag o leiaf un defnyddiwr gwasanaeth pob un mae'n ei oruchwylio bob blwyddyn i gael adborth, yn ogystal â chynnal ymweliadau ar y cyd i gael adborth defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu ffurfiol gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr fel digwyddiadau Gofalwyr ar 9 Mai 2024. Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol, trwy ei arweinwyr gofalwyr, hefyd yn cynnal digwyddiadau mwy anffurfiol i gael adborth fel boreau coffi gofalwyr.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi ymroi i gefnogi unigolion sy'n byw gyda Dementia gyda ffocws ar ddarparu gofal wedi'i deilwra, codi ymwybyddiaeth, a darparu adnoddau i wella ansawdd bywyd i'r rhai yr effeithir arnynt gan ddementia a'u teuluoedd yn unol â Strategaeth Dementia Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru. Comisiynwyd adolygiad o Wasanaethau Dementia yn ddiweddar i werthuso'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin, i nodi'r bylchau wrth ddarparu gwasanaethau ac i ddarparu cynllun gweithredu i ganolbwyntio ar ein gwaith yn y dyfodol.

Mae gwasanaethau gofal hirdymor wedi'u cryfhau trwy ymdrechion cydweithredol ar draws gwahanol sectorau. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae ein hymrwymiad i ehangu'r gwasanaethau hyn yn ddiwyro. Mae'r pwyslais ar reoli galw yn y tymor byr i sicrhau hyfywedd hirdymor. Mae llwybrau wedi'u cynllunio i ymgorffori strategaeth ataliol i warantu comisiynu cytbwys o unrhyw ofal cymdeithasol hirdymor, gan ddiogelu ein hadnoddau gofal cymdeithasol cyfyngedig.

Rydym yn ymdrechu i gynnal annibyniaeth pobl hŷn, gan sicrhau eu bod yn mwynhau cymaint o ddyddiau iach yn eu cartrefi neu gerllaw eu cartrefi â phosibl. Un o'n hamcanion hirdymor yw cadw unigolion allan o wasanaethau ffurfiol cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol, gan ganiatáu iddynt gadw eu llais, eu dewis a'u rheolaeth eu hunain, a thrwy hynny osgoi dibyniaeth ar wasanaethau. Rydym yn gweithredu ffocws "rhyddhau amser i ofalu" gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo annibyniaeth tra'n darparu'r pecyn gofal lleiaf ymwthiol sydd yn ei dro yn rhyddhau capasiti gofal cartref i eraill sy'n aros. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhyddhau 851 awr o ofal sydd wedi golygu bod rhestrau aros ar gyfer gofal cartref ar eu hisaf ers blynyddoedd lawer, a bod gennym dri deg yn llai o bobl mewn gofal preswyl er gwaethaf y galw cynyddol sy'n dangos manteision y gwasanaeth hwn.

Mae ein tîm arweinyddiaeth wedi ymroi i feithrin diwylliant o arloesi a gwelliant parhaus. Trwy hyfforddiant rheolaidd, rhaglenni datblygu, goruchwylio a sesiynau ymarfer myfyriol, mae staff yn cael eu grymuso i wella eu sgiliau ac addasu i ofynion newidiol gofal cymdeithasol. Mae'r ymrwymiad hwn i dwf proffesiynol nid yn unig yn hwb i forâl ond hefyd yn sicrhau bod ein gweithlu'n parhau'n flaenllaw o ran arferion gorau mewn gofal.

Mae ffocws ar recriwtio ac nid oes dim swyddi gwag ym maes gwaith cymdeithasol yn y Gwasanaethau Integredig. Rydym wedi buddsoddi mewn model recriwtio "Tyfu eich gweithwyr eich hun", ac ar hyn o bryd mae gennym naw gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant y mae eu ffioedd yn cael eu talu gan yr Awdurdod Lleol, ac maent yn cynnal eu swyddi parhaol tra byddant ar leoliadau. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant rhyfeddol gyda'r holl fyfyrwyr a noddwyd yn flaenorol wedi cymhwyso ac wedi cymryd swyddi parhaol o fewn yr awdurdod, gan arwain at weithlu sefydlog â chymhelliant sydd â'r adnoddau i ddarparu gwasanaethau o safon.

Mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud o ran cadw staff, gyda'r Fframwaith Dilyniant ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yn ffocws allweddol. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig cyfle i weithwyr cymdeithasol profiadol wneud cais am gynnydd mewn gradd heb fod angen symud i swydd reoli. Mae gweithwyr cymdeithasol o'r is-adran wedi symud ymlaen yn llwyddiannus ac wedi sôn sut mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu morâl a'u teimlad o gael eu gwerthfawrogi. Mae'r ymagwedd ragweithiol hon wedi ein galluogi i ragori ar Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru o ran ein cyflog, ac nid yw cadw staff bellach yn her fawr i'r gwasanaeth.

Mae gan y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol weithlu cwbl integredig sy'n darparu gwasanaeth di-dor ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r tîm wedi gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael â heriau recriwtio, a'r canlyniad yw nad oes unrhyw swyddi gwag Therapi Galwedigaethol gan y tîm ar hyn o bryd, ac mae'r amser aros am asesiad i unigolion sydd angen y gwasanaeth wedi gostwng o 15 wythnos i 5-6 wythnos. Mae swydd Therapi Galwedigaethol newydd wedi'i datblygu yn Siop Offer Cymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin sy'n ychwanegiad cyffrous i'r tîm.

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau, a bod y cynnydd mewn angen yn cael ei atal tra'n sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl trwy sicrhau bod gennym llif system effeithlon a gofal brys i reoli'r gofynion gofal iechyd cynyddol. Rydym wedi optimeiddio llwybrau cleifion, gan sicrhau mynediad amserol at wasanaethau gofal brys tra'n lleihau oedi diangen. Mae hyn wedi'i gyflawni trwy gydlynu gwell rhwng darparwyr gofal cynradd, eilaidd a thrydyddol, gan arwain at neb yn aros am ddyraniad gwaith cymdeithasol yn ein Ysbytai Acíwt.

Yn ganolog i hyn mae'r Tîm Gofal Canolraddol sy'n brysbennu pob atgyfeiriad ar gyfer asesiad neu gymorth wrth ryddhau. Maent yn defnyddio chwe philer o Ailalluogi 'Gartref neu'n seiliedig ar Welyau' am gyfnod o hyd at 6 wythnos. Prif nod 'Gartref yn Gyntaf,' a chwestiynu'n rheolaidd; A allant fynd adref heddiw, os na, pam lai? Mae'r Tîm Gofal Canolraddol yn hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn amserol ac yn effeithlon iawn.

Mae asesu yng nghartref y person ei hun neu leoliadau mwy hamddenol ar gyfer ailalluogi seiliedig ar welyau yn golygu bod y person yn llawer mwy annibynnol, ac felly yn aml nid oes angen cymaint o ofal a chymorth ffurfiol arno, os o gwbl. Dim ond yr atgyfeiriadau cymhleth y mae angen eu hasesu yn yr ysbyty cyn eu rhyddhau sy'n cael eu cyfeirio at Dimau Gwaith Cymdeithasol yr ysbyty.

Mae atal yn parhau i fod yn un o gonglfeini ein strategaeth i fynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio. Mae Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin – Strategaeth Atal Cwrs Bywyd yn mynd trwy'r camau cymeradwyo terfynol a bydd yn mynd i'r Cabinet ar 29 Medi 2025. Mae'r strategaeth yn cynnwys pum cyfle allweddol y bydd Sir Gaerfyrddin yn bwrw

ymlaen â nhw – Gwella mynediad at wybodaeth a gwasanaethau; Grymuso'r cyhoedd; Atal Mwy Clyfar; Cydweithredu ac Arloesi a sicrhau bod pobl yn derbyn cefnogaeth ar yr adeg iawn i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu ac i wella canlyniadau. Mae'r strategaeth yn cydnabod y gyd-ddibyniaeth a all effeithio ar iechyd a llesiant a bydd yn ein herio ni i feddwl am atal ar bob cam.

Mae mentrau sy'n canolbwyntio ar addysg iechyd, newidiadau i ffordd o fyw, ac ymgysylltu â'r gymuned wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Er enghraifft, mae ein rhaglenni atal codymau wedi lleihau digwyddiadau 30%, gan ddangos effeithiolrwydd mesurau rhagweithiol. Mae ein gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol yn elfen hanfodol o'n strategaeth ataliol, sy'n cysylltu cleifion ag adnoddau cymunedol i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r Rhagnodwyr Cymdeithasol yn rhan annatod o'r timau Cymunedol lleol, ac mae'r rôl wedi'i chynllunio i weithio'n agos gydag unigolion sydd naill ai'n hunan-gyfeirio, yn cael eu nodi gan y meddygon teulu, neu aelodau o'r Tîm Adnoddau Cymunedol a chontractwyr gofal sylfaenol ehangach, fel rhai mae angen cymorth arnynt i gysylltu â'u cymunedau er mwyn hyrwyddo hunan-werth ac integreiddio; darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gleifion, sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant ymysg poblogaeth Sir Gaerfyrddin. Mae canlyniadau'r gwasanaeth yn cynnwys galluogi pobl i wneud y mwyaf o'u potensial eu hunain, hyrwyddo hunanreoli, cefnogi unigolion i gymryd mwy o reolaeth o'u hiechyd eu hunain a thrwy hynny oedi neu atal y gofyniad am wasanaethau statudol, a lleihau'r galw sydd ar feddygon teulu trwy daclo a datrys problemau ynysu sylfaenol sy'n achos sylfaenol cysylltiadau lluosog a rheolaidd â'r practis.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi ymroi i gydymffurfio â'r blaenoriaethau deddfwriaethol, gan sicrhau bod ein gwasanaethau integredig yn cyd-fynd â safonau a pholisïau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys diogelu poblogaethau agored i niwed, hyrwyddo tegwch iechyd, a chynnal tryloywder wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed gan y Gwasanaethau Integredig wrth wasanaethu'r boblogaeth sy'n heneiddio. Trwy ein ffocws ar Ofal Rhagweithiol a Chynlluniedig, Gofal Hirdymor, Llif System a Gofal Brys, ac Atal, rydym yn gadarn yn ein hymrwymiad i ddarparu atebion gofal iechyd cynaliadwy o safon sy'n bodloni blaenoriaethau deddfwriaethol ac yn mynd i'r afael ag anghenion datblygol ein cymuned.

## Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Mae oddeutu 189,000 o bobl yn byw yn Sir Gaerfyrddin.   O blith y rhain mae 49,200 yn blant a phobl ifanc rhwng 0 a 24 oed.

Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn byw gyda theuluoedd sy'n hapus, yn iach, yn ddiogel ac sydd â pherthnasoedd cariadus. Fodd bynnag, mae rhai plant yn wynebu heriau yn eu bywydau o ddydd i ddydd sy'n golygu bod tyfu lan a chyrraedd eu potensial llawn yn anos.

Mae'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf oherwydd materion cenedlaethol fel pandemig COVID a gostyngiadau i gyllid gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn wedi effeithio ar deuluoedd Sir Gaerfyrddin, yn

enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac wedi cael effaith ar y galw sydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer mesur amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bychain - a elwir Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Mae gan Sir Gaerfyrddin 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Yng nghanfyddiadau diweddaraf WIMD (2019), mae 25 o'r ardaloedd hyn ymhlith y 30% mwyaf amddifad yng Nghymru. Dyma gynnydd o 25% yn yr ardaloedd ers y WIMD blaenorol yn 2011.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn (60%) wedi'u lleoli yn rhanbarth Llanelli (15 LSOA) gydag 20% yn ardal Aman (5 LSOA), 12% yn ardal Gwendraeth (3 LSOA) ac 8% wedi'u lleoli yn ardal Caerfyrddin (2 LSOA).

Mae Sir Gaerfyrddin yn arddangos yr 8fed lefel uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r lefelau tlodi yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.1%. Mae 34.6% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi.

Rydym yn gwybod bod tlodi cynyddol yn arwain at alw cynyddol am wasanaethau.

Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cynnig ystod eang o gymorth i alluogi plant a phobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, gan weithio gyda theuluoedd drwy gymorth blynyddoedd cynnar cyffredinol yn ein canolfannau plant, gwybodaeth, cyngor a chymorth, hyd at ymyrraeth statudol i amddiffyn plant rhag niwed.

<table>
<tr><th>Maes Gwasanaeth</th><th>Tîm</th><th>Crynodeb</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Cymorth Cynnar ac Asesu</td><td>Hwb Cymorth Cynnar</td><td rowspan="4">Darparu cymorth a chefnogaeth yn gynharach yn ogystal â swyddogaethau'r drws ffrynt a'r tîm asesu.</td></tr>
<tr><td>Tîm Atgyfeirio Canolog</td></tr>
<tr><td>Tîm Asesu Caerfyrddin a Dinefwr</td></tr>
<tr><td>Tîm Asesu Llanelli</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Cymorth a Diogelu</td><td>Timau Gwaith Cymdeithasol Plant:<br>Dwyrain Llanelli<br>Gorllewin Llanelli<br>Caerfyrddin<br>Dinefwr</td><td rowspan="3">Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth, diogelu a llety ledled y sir.<br>Cymorth i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys pobl ifanc ddigwmni sy'n ceisio lloches.</td></tr>
<tr><td>Tîm Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches</td></tr>
<tr><td>Cam Nesaf (cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal)</td></tr>
</table>

| Maes Gwasanaeth | Tîm | Crynodeb |
| --- | --- | --- |
| **Cymorth i Deuluoedd Ac Adnoddau** | Maethu Cymru Sir Gâr<br>Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cydweithrediad Mabwysiadu Rhanbarthol)<br>Y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd<br>Llety â Chymorth<br>Amser Teulu (Cyswllt dan Oruchwyliaeth)<br>Cartrefi Plant<br>Cartrefi Seibiannau Byr Plant (Seibiant) | Gweithio gyda phlant mewn gofal maeth, cymorth i deuluoedd maeth.<br>Hwyluso'r broses fabwysiadu a chefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu.<br>Helpwch deuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau sy'n arwain at wahanu a gweithio tuag at ailuno plant yn ddiogel â'u teuluoedd<br>Gofal preswyl i blant a phobl ifanc, yn cynnwys seibiannau byrion. |
| **Gwasanaethau Integredig Plant ac Addysg** | Iechyd Emosiynol<br>Cymorth Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion<br>Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant | Mae'r timau hyn yn canolbwyntio ar gefnogi sefydlogrwydd o ran addysg a lleoliadau, trwy'r gwaith gyda Gofalwyr Maeth, Plant a Phobl Ifanc, Ysgolion, Gweithwyr Cymdeithasol, Staff Addysgol a Swyddogion Awdurdodau Lleol. |
| **Anghenion Cymhleth a Phontio** | 0-25 Anabledd<br>Camau Bach<br>Cymorth Cynnar i blant anabl | Darparu cymorth, gofal a chefnogaeth i blant anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyfrifoldeb strategol am ddatblygu llety a chynllunio pontio ar gyfer pobl ifanc anabl. Swydd a rennir gyda Gofal Cymdeithasol i Oedolion. |
| **Cynllunio Comisiynu Strategol a Chynllunio Gwasanaethau** | Canolfannau Plant Integredig<br>Canolfannau Teulu<br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br>Dechrau'n Deg a Gofal Plant<br>Llwybr Cwm Gwendraeth<br>Blynyddoedd Cynnar<br>Comisiynu Plant a Theuluoedd<br>Cyllid Plant a Theuluoedd | Rhaglen blynyddoedd cynnar a systemau a swyddogaethau canolog sy'n cefnogi gwaith yr is-adran gyfan gan gynnwys comisiynu strategol, rheoli rhaglenni a gweinyddu grantiau a chydymffurfio. |

| Maes Gwasanaeth | Tîm | Crynodeb |
|---|---|---|
| **Diogelu Strategol a Sicrhau Ansawdd** | Cynadledda Achos Amddiffyn Plant | Diogelu strategol a phartneriaethau, sicrhau ansawdd a safonau ymarfer, rheoli perfformiad, a chynllunio a datblygu'r gweithlu ar draws yr is-adran. |
| | Adolygu Annibynnol | |
| | Gofal yn Gyntaf / Eclipse | |
| | Cymorth Busnes | |
| | Rheoli Perfformiad | |

Mae ein ffocws ar ymyrraeth gynnar ac atal. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r anghydraddoldebau sy'n wynebu plant difreintiedig, cefnogi teuluoedd mewn sefyllfaoedd heriol, creu amgylcheddau cartref diogel a sefydlog, a helpu i gael mynediad at wasanaethau iechyd a llesiant lleol.

Rydym am atal yr angen am gyfranogiad statudol ac am i blant a phobl ifanc aros gyda'u teuluoedd a'u cymunedau pryd bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny.
Os bydd angen cymorth statudol, mae'n flaenoriaeth amddiffyn plant sy'n profi camdriniaeth, esgeulustod, neu niwed arall, neu sydd mewn perygl o'u profi.

## Rhaglen Drawsnewid

Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ledled Cymru dan bwysau i ymateb i'r galw digynsail. Mae hyn wedi cyd-fynd â phrinder yn y gweithlu cenedlaethol, cwymp yn y lleoliadau sydd ar gael i blant, a gostyngiad yn y cyllid gaiff yr Awdurdod Lleol.
Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa, mae buddsoddiad nas gwelwyd ei fath erioed o'r blaen wedi'i wneud yn y gweithlu, mewn atal a chostau gofal. Mae'r buddsoddiad hwn wedi'i gyd-lynu gan grŵp corfforaethol dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Buddsoddiad

**£7.5m** Cyllideb ychwanegol o £5.5m (twf) a £2m wedi'i glustnodi o gronfeydd wrth gefn i gefnogi recriwtio i swyddi newydd a datblygu gwasanaethau.

**Rhaglen Drawsnewid**
Sefydlu rhaglen drawsnewid. Bydd hyn yn helpu i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn helpu i ddarparu cymorth i sicrhau newid cynaliadwy yn y dyfodol.

| Capasiti | Cartrefi Plant | Maethu | Anableddau | Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches | Cadw | Hyfforddeion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Capasiti ychwanegol o ran gwaith cymdeithasol, ymarferwyr a swyddogion adolygu. | Datblygu a buddsoddi mewn 3 chartref plant newydd a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | Buddsoddi mewn recriwtio pobl i faethu a'r gwasanaeth lleoli ehangach. | Datblygu a buddsoddi yn ein cynnig ar gyfer ein plant anabl. | Creu tîm arbenigol i gefnogi plant digwmni sy'n ceisio lloches yn well | Rhoi'r Fframwaith Dilyniant Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol ar waith yn llawn er mwyn sicrhau ein bod yn talu cyflog sydd ymhlith yr 20% uchaf yng Nghymru i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a rhai profiadol. | Creu 14 o hyfforddeiaethau gwaith cymdeithasol ychwanegol, gan ddarparu capasiti ychwanegol hanfodol a sicrhau ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth erbyn 2027. |
| **NODAU** | | | | | | |
| Cyfradd ailatgyfeirio isel i'r Gwasanaethau Plant ar gyfer Asesu Gofal a Chymorth | Dileu'r defnydd o leoliadau 'er elw' erbyn mis Mawrth 2026 | Lleihau'r defnydd o Asiantaethau Maethu Annibynnol erbyn mis Mawrth 2026 | % o'r pecynnau cymorth / taliadau y cytunwyd arnynt yn unol â fframwaith polisi anableddau a gymeradwywyd o fis Ionawr 2025 | Cefnogi Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches gydag adnoddau'r Swyddfa Gartref | Dim gweithwyr asiantaeth erbyn Mawrth 2027 | |

Mae ymateb i hyn yn hanfodol bwysig ac mae Rhaglen Drawsnewid ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi darparu £7.5 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer gwneud gwelliannau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd, ochr yn ochr â £2 filiwn o fuddsoddiad cyfalaf mewn Cartrefi Plant newydd.

Mae Cynllun Trawsnewid a ffrydiau gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd y nodwyd bod angen buddsoddiad ynddynt o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Bydd hyn yn helpu i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn darparu cymorth i sicrhau newid cynaliadwy yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen yn cael ei goruchwylio gan fwrdd dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r tîm Uwch-reolwyr Plant sy'n arwain y ffrydiau gwaith hefyd yn bresennol. Hefyd yn bresennol mae uwch-arweinwyr ar gyfer Adnoddau Dynol a Chyllid, a'r Cyfarwyddwr Addysg a Phlant. Mae cynnydd yn cael ei adrodd drwy'r tîm rheoli corfforaethol ac i'r Cabinet a rhoddir diweddariadau o leiaf bob pythefnos i'r aelod arweiniol dros y gwasanaethau cymdeithasol.

Eleni mae'r Is-adran Plant a Theuluoedd wedi bod yn cyflawni blwyddyn gyntaf ein rhaglen drawsnewid.

Cymorth Cynnar ac Asesu - mae'r maes hwn ar y trywydd iawn.
Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae ar y trywydd iawn i sefydlu dull Cymorth Cynnar lle mae partneriaid statudol a'r trydydd sector yn cydweithio'n agos i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy roi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir iddynt hwy. Bydd y dull a rennir yn lleihau dyblygu a bylchau mewn cymorth.

**Y Prif lwyddiannau:**

- Mae'r Hwb Cymorth Cynnar wedi'i sefydlu gan ddefnyddio adnoddau presennol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Sefydlwyd y Tîm Camu i Fyny, Camu i Lawr gan ddefnyddio twf.
- Mae peilot tîm aml-asiantaeth 14+ yn symud ymlaen gan ddefnyddio adnoddau presennol gan Blant a Theuluoedd, Tai a phartneriaid y trydydd sector
- Mae staffio yn sefydlog yn y Timau Asesu ac mae'r defnydd o Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth yn llai.
- Mae cyfraddau ailasesu wedi gostwng ac yn parhau i fod yn isel.

Cymorth ac Adnoddau i Deuluoedd **-** cynnydd da yn cael ei wneud yn y maes hwn gyda'r rhan fwyaf o elfennau ar y trywydd iawn.

Mae'r maes hwn ar y trywydd iawn i ddarparu set o wasanaethau cydgysylltiedig, ymatebol sy'n darparu adnodd effeithiol i Weithwyr Cymdeithasol ei ddefnyddio.

**Y Prif lwyddiannau:**

- Mae'r strwythur newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd wedi'i gynllunio trwy gwblhau'r Adolygiad Meddwl trwy Systemau.
- Lluniwyd swyddi newydd a phenodwyd pobl i wella ein hymarfer a'n perfformiad ym maes maethu, gan gynnwys Ymgynghorydd Panel, Swyddog Marchnata a Chyfathrebu a Swyddog Adolygu Annibynnol - Maethu.
- Rydym yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau cenedlaethol ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth er bod prinder sylweddol o leoliadau maeth o hyd.
- Mae strategaeth farchnata maethu wedi cael ei datblygu ac yn cael ei gweithredu. Mae ymgyrch recriwtio ar waith ar hyn o bryd.

Cartrefi Plant - mae cynnydd da yn cael ei wneud yn y maes hwn.
Mae hwn yn faes â nifer o heriau cymhleth, ac mae ganddo risgiau sylweddol sydd i gyd yn newid yn gyflym ac yn gofyn am ymatebion creadigol, brys.

**Y Prif lwyddiannau:**

- Ymrwymiad i sicrhau bod yr holl ofal preswyl yn cael ei ddarparu yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2026. Mae cyllid cyfalaf wedi cael ei nodi.
- Mae ein Strategaeth Comisiynu Lleoliadau yn nodi ein bwriad strategol a'n cynllun manwl ar gyfer gweithredu, gan gynnwys rhagolwg costau ar gyfer pob elfen o'r cynllun.
- Mae 75% o'r deiliaid swyddi ar gyfer ein cartrefi plant newydd (Hafan a Rhodfa Ross) wedi dechrau.
- Penodwyd rheolwyr tîm ar gyfer y ddau gartref, mae un penodiad mewnol yn ei swydd, a bydd un penodiad allanol yn dechrau yn ei swydd ym mis Hydref.
- Mae'r strwythur staffio yn Garreglwyd wedi cael ei adolygu a'i gadarnhau, ac mae'r recriwtio i swyddi ychwanegol wedi'i gwblhau ac mae niferoedd y staff asiantaeth wedi lleihau'n sylweddol.
- Symudodd tri phlentyn o drefniadau brys 'gweithredu heb gofrestru' (OWR), i gartrefi plant cofrestredig, ac nid oes neb sy'n gweithredu heb drefniadau cofrestru.
- Mae cartref plant Hafan bellach wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac mae'n 90% llawn.
- Gwneud y mwyaf o'n capasiti mewnol – mae cartrefi plant Hafan a Rhodfa Ross yn llawn.
- Mae'r defnydd o staff gofal asiantaeth wedi lleihau'n sylweddol.
- Cytunwyd ar y dyluniad ar gyfer cartref plant newydd. Mae dau ddyluniad (ar gyfer adeiladau un llawr a deulawr) yn darparu templedi ar gyfer y rhanbarth cyfan i gynorthwyo i weithredu'r polisi gwaredu elw, ac mae amserlen glir o ddwy flynedd wedi'i llunio ar gyfer ein cartrefi plant newydd.

Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches - mae'r maes hwn ar y trywydd iawn.

**Y Prif lwyddiannau:**

- Wedi creu tîm arbenigol o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth ac ymgynghorwyr personol
- Pum eiddo yn Sir Gaerfyrddin wedi'u sefydlu o'r dechrau lle mae 10 o bobl ifanc yn byw.
- Nid oes unrhyw leoliadau a gomisiynir yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw atgyfeiriadau newydd o'r cynllun trosglwyddo cenedlaethol. Mae hyn wedi bod yn her enfawr, ond mae'r timau'n cyflawni.
- Mae canllawiau a phrosesau ymarfer ar waith i gefnogi gwaith y timau.

Cymorth i Blant a Phobl Ifanc Anabl - mae'r maes hwn ar y trywydd iawn.

**Y Prif lwyddiannau:**

- POD ychwanegol yn y tîm Gwaith Cymdeithasol 0-25 wedi'i sefydlu ac ar waith
- Swyddi ychwanegol yn y Tîm Camau Bach (cymorth cynnar i blant anabl) i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn
- Swydd newydd fel bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnal yn y Tîm Camau Bach
- Recriwtio ar y gweill i swyddi newydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybr niwroamrywiol (ND)

Galluogwyr Gweithlu a Busnes**-** cynnydd da yn cael ei wneud yn y maes hwn gyda'r rhan fwyaf o elfennau ar y trywydd iawn.


**Y Prif lwyddiannau:**

- Mae staffio yn y timau Gwaith Cymdeithasol wedi'i sefydlogi. Mae cyfraddau cadw Gweithwyr Cymdeithasol yn dda iawn bellach.
- Cafodd staff gwaith cymdeithasol eu hailraddio i'r cynllun dilyniant ac mae gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a phrofiadol bellach yn cael eu talu yn unol â'r 3 awdurdod uchaf yng Nghymru.
- Mae'r fenter Tyfu ein Gweithwyr Cymdeithasol ein Hunain ar y trywydd iawn i ddarparu 5 o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso eleni a 31 arall dros y 3 blynedd nesaf.
- Rydym wedi penodi i 10 gradd Meistr a 3 llwybr OU, swyddi Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant.
- Mae'r cynllun i leihau'r defnydd o Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth yn ei le ac ar y trywydd iawn – gwariant ar Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth yn unol â'r rhagolwg a wnaed yn ystod gwaith y gyllideb. Adeg ysgrifennu'r adroddiad, dim ond 6 aelod o

staff asiantaeth sydd ar ôl gyda'r rhain yn cael eu defnyddio i gefnogi staff sydd newydd gymhwyso, a'r disgwyl yw byddant yn gadael yn ddiweddarach eleni.

- Mae'r cynllun archwilio ffeiliau ar gyfer y flwyddyn ar waith a bydd yn cael ei fonitro o hyd.
- Adolygiad o fodel gwaith cymdeithasol Sir Gaerfyrddin wedi'i gwblhau.
- Cwblhawyd symud ein system electronig gwaith achos o CareFirst i Eclipse yn llwyddiannus, ac mae peilot recordio AI gan ddefnyddio 'Magic Notes' bellach ar y gweill.
- Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar ddatblygu'r data sydd ar gael i reolwyr i'w galluogi i reoli perfformiad yn well. Bydd hyn yn gwella ymhellach yn dilyn symud i Eclipse a sefydlu tîm perfformiad newydd ar draws gofal cymdeithasol i oedolion a phlant.

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu gweledigaeth ac egwyddorion sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni gwasanaethau cymdeithasol modern i blant, a fydd yn cefnogi llwyddiant y Rhaglen Drawsnewid.




## Ein Gweledigaeth

Gweledigaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yw cadw plant yn ddiogel a theuluoedd gyda'i gilydd.

## Ein Hegwyddorion:

I gyflawni ein gweledigaeth, byddwn yn:

1. Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt, a hynny pryd a ble mae ei angen arnynt, gan atal yr angen am ymyrraeth statudol.
2. Gweithio ochr yn ochr â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gyd-lunio cynlluniau a fydd yn rhoi bod i'r newid sydd ei angen ar blant cyn gynted â phosibl.
3. Ffocws ar deuluoedd - rhoi sylw i heriau trwy weithio gyda chryfderau teulu a gweithio mewn partneriaeth â'r teulu cyfan i ddod o hyd i atebion a chadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bo'n bosibl a phlant yn diogel.
4. Sicrhau gweithlu effeithiol, sefydlog sy'n gymwys, wedi'i gefnogi a'i werthfawrogi wrth iddynt ddarparu gwasanaethau o safon i blant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin.
5. Gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau cymunedol, addysg, iechyd, a gwaith cymdeithasol statudol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy hwylus i deuluoedd Sir Gaerfyrddin.

### Model Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Plant

Yn y gorffennol, mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi croesawu cymysgedd o fodelau ymarfer gwaith cymdeithasol, gan gydnabod nad oes un dull sy'n addas i bob sefyllfa. Dros amser, mae'r modelau Arferion Systemig a *Signs of Safety* wedi'u defnyddio, gyda phwyslais cyfredol ar integreiddio Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma.
Gan fod newidiadau yn y Tîm Uwch-reolwyr, Rheolwyr Tîm a gweithwyr cymdeithasol newydd, eleni oedd yr amser iawn i sicrhau bod pawb yn deall y model ymarfer gwaith cymdeithasol. Mae hyn yn bwysig fel bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin yn cael ymateb cyson a theg.

Er mwyn cefnogi'r Rhaglen Drawsnewid sydd ar y gweill ar hyn o bryd sefydlwyd grŵp ffocws, sy'n cynnwys prif Uwch-reolwyr a chynrychiolwyr Dysgu a Datblygu, i sicrhau dealltwriaeth glir o'r model a'r cytundeb ynghylch hyfforddiant cysylltiedig.

## Ategu Damcaniaethol

Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn defnyddio cyfuniad o fodelau ymarfer sy'n cynnwys elfennau o Arferion Systemig, *Signs of Safety*, a Gofal sy'n Ystyriol o Drawma.

### Arferion Systemig

Mae ein hymarfer yn canolbwyntio ar ddeall a mynd i'r afael â'r perthnasoedd a'r ddeinameg gymhleth o fewn teuluoedd a chymunedau. Mae'n gosod pwyslais ar edrych ar unigolion yng nghyd-destun eu systemau teuluol, gan ystyried sut mae'r perthnasoedd hyn yn dylanwadu ar ryngweithiadau ac ymddygiadau. Mae egwyddorion allweddol yn cynnwys cydweithio â theuluoedd, cydnabod patrymau a chysylltiadau, a defnyddio hyn i hyrwyddo newid cadarnhaol a gwytnwch. Mae'r ymagwedd hon yn ceisio creu atebion cynaliadwy trwy ymgysylltu a grymuso pob aelod o'r system deuluol.

**Signs of Safety**

Mae ein hymarfer yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar atebion, at waith amddiffyn plant. Ei nod yw creu partneriaethau gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol i sicrhau diogelwch plant. Y nod yw cydbwyso asesu risg â chydnabyddiaeth o gryfderau teuluol i greu amgylchedd mwy diogel i blant.

Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:

- **Cydweithio:** Ymgysylltu â theuluoedd, plant a gweithwyr proffesiynol mewn ymdrech ar y cyd i nodi pryderon ac atebion.
- **Asesiad Seiliedig ar Gryfderau:** Canolbwyntio ar gryfderau ac adnoddau y teulu i fynd i'r afael â risgiau a sicrhau diogelwch plant.
- **Cynllunio Diogelwch Clir:** Datblygu cynlluniau diogelwch clir, ymarferol sy'n ddealladwy ac yn weithredadwy gan bawb.
- **Perthnasoedd Gwaith Adeiladol:** Adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasoedd parchus rhwng gweithwyr cymdeithasol a theuluoedd.

**Ystyriol o Drawma**

Mae'r model hwn yn ddull sy'n cydnabod effaith eang trawma ac yn integreiddio'r ddealltwriaeth hon ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau.
Mae'r egwyddorion allweddol yn cynnwys:

- **Diogelwch:** Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ddiogel yn gorfforol ac yn emosiynol.
- **Dibynadwyedd a Thryloywder:** Adeiladu ymddiriedaeth trwy gyfathrebu clir, cyson a thryloyw.
- **Cymorth gan Gyfoedion:** Annog a hwyluso cymorth gan gyfoedion i hyrwyddo iachâd ac adferiad.
- **Cydweithredu a Chydfuddiannu:** Meithrin cydweithredu ar bob lefel, gan gydnabod bod iachâd yn digwydd mewn perthnasoedd a gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- **Grymuso, Llais a Dewis:** Grymuso unigolion trwy flaenoriaethu eu cryfderau a'u profiadau a chaniatáu iddynt gael llais yn eu gofal a'u cefnogaeth.
- **Materion Diwylliannol, Hanesyddol a Rhywedd:** Cydnabod a mynd i'r afael â chyd-destunau diwylliannol, hanesyddol a rhywedd a allai effeithio ar drawma ac adferiad.

Mae integreiddio Arferion Systemig, *Signs of Safety*, ac Ymarfer Ystyriol o Drawma i'r model ymarfer yn Sir Gaerfyrddin yn cynnig fframwaith cynhwysfawr i weithwyr cymdeithasol. Mae'r dull cyfunol hwn yn gwella dealltwriaeth gyfannol, yn manteisio ar gryfderau ac yn hyrwyddo sensitifrwydd trawma. Mae'n meithrin canlyniadau gwell, cydweithio, grymuso, gwytnwch, a gofal a chymorth wedi'u personoli.

Trwy gadw at y model ymarfer hwn, gall gweithwyr cymdeithasol ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion unigolion a theuluoedd yn effeithiol.

**Mewnbwn seicoleg a'r model POD**

Yn Sir Gaerfyrddin, mae ein goruchwyliaeth achos yn mabwysiadu model POD, gan integreiddio arbenigedd gweithwyr cymdeithasol, ymarferwyr a seicolegwyr. Mae'r model hwn yn allweddol ar gyfer ymwreiddio seicoleg o fewn gwaith cymdeithasol, gan wella ein dealltwriaeth o ddeinameg teulu, datblygiad plant, cymhelliant, ac ystod o brosesau seicolegol. Mae integreiddio o'r fath yn hanfodol i gael dealltwriaeth ddyfnach o systemau'r teulu, gan arwain at ddatblygu ymyriadau effeithiol.

Mae rôl y seicolegydd o fewn timau gwaith cymdeithasol systemig yn amlochrog ac yn rhan annatod o'n dull cyfannol. Maent yn darparu ymgynghoriad ychwanegol i gefnogi'r cynllunio, y ddealltwriaeth systemig, a fformiwleiddio ynghylch plant a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r cynllunio gofal i blant a phobl ifanc yn ogystal â dehongli ac ymateb i asesiadau seicolegol fel rhan o achosion llys neu leoliadau addysgol.

Gall seicolegwyr gysylltu â chydweithwyr addysgol i gefnogi sefydlogrwydd lleoliadau ysgol a darparu ymgynghoriad i weithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr er mwyn diwallu anghenion seicolegol plant a phobl ifanc. Yn ogystal maent yn cynnig ymgynghoriadau pellach i weithwyr cymdeithasol ynghylch achosion cymhleth neu achosion sy'n 'sownd', ac yn darparu hyfforddiant mewn technegau ac ymarfer systemig i ddatblygu eu sgiliau.

Mae seicolegydd arweiniol yn goruchwylio cynllunio a chyflwyno rhai ymyriadau therapiwtig neu waith uniongyrchol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn trallod emosiynol neu seicolegol. Ar ben hynny, maent yn cyfrannu at raglenni sefydlu a hyfforddi ar gyfer staff sydd newydd gymhwyso neu sydd newydd gael eu cyflogi, gan sicrhau eu bod yn meddu ar y ddealltwriaeth a'r galluoedd angenrheidiol i gefnogi teuluoedd yn effeithiol.

Bydd rheoli perfformiad yn cael ei ystyried yn uniongyrchol trwy uno timau perfformiad oedolion a phlant â gwasanaethau plant, gan gyd-fynd â'r ymagwedd mewn gofal cymdeithasol i oedolion i roi data byw i reolwyr rheng flaen.

Yn olaf, cymeradwywyd ein hymagwedd at wasanaethau Plant yn gynharach eleni drwy arolygiad llawn rhagorol o'n gwasanaethau Plant gan Arolygiaeth Plant Cymru. Mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau sefydlogrwydd ariannol, ond mae'r gwasanaeth wedi codi'n wych i'r her gyda'r gefnogaeth gorfforaethol sylweddol a gynigir.

## Yr Iaith Gymraeg

**Fframwaith Mwy na Geiriau**

Mae'r fframwaith yn gynllun strategol i brif ffrydio'r Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru. I ddechrau, roedd y fframwaith yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd rhwng 2016 a 2019 ac roedd ganddo saith amcan allweddol. Mae hefyd yn amlinellu'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg, megis Safonau'r Gymraeg a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol benodi uwch-swyddog fel Hyrwyddwr y Gymraeg, ac i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Iechyd ddiogelu a hyrwyddo swydd Swyddog y Gymraeg. Mae'r rolau hyn yn gyfrifol am arwain a monitro gweithredu'r fframwaith a sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu diwallu ar draws pob gwasanaeth.

Mae'r fframwaith yn nodi nifer o gamau gweithredu i'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol asesu'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau Cymraeg, yn ogystal â gallu a sgiliau'r gweithlu i'w darparu. Mae'r camau hyn yn cynnwys mapio'r ddarpariaeth a gwneud Cynnig Gweithredol o wasanaethau Cymraeg, cofnodi anghenion iaith a dewisiadau unigolion, cofnodi ac adrodd ar sgiliau iaith staff a'r proffil cymunedol, a chynnal ymchwil i effaith yr iaith ar ganlyniadau iechyd a llesiant.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol ddefnyddio'r wybodaeth o'r mapio, archwilio, casglu data ac ymchwil i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau Cymraeg sy'n diwallu anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys adlewyrchu proffil y gymuned Gymraeg mewn cynlluniau gwasanaeth, manylebau contractau, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau cyllid grant, datblygu cynlluniau i gynyddu i'r eithaf y defnydd o staff sy'n siarad Cymraeg, ac adrodd ar y cynnydd a'r targedau yn yr adroddiadau blynyddol.

**Ein cynnydd hyd yma**

- Penodi Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fel prif hyrwyddwr yr iaith Gymraeg.
- Cynhaliwyd ymarfer i asesu sgiliau iaith staff a nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg. Nod hyn yw gweld pa mor dda gallwn ddarparu gwasanaethau yn yr iaith a ffefrir ar bob lefel (adrannol, is-adrannol a thîm). Diweddarwyd yr ymarfer hwn yn 2023 a glanhawyd data'r gweithlu i sicrhau cywirdeb.
- Mae gan yr holl gofnodion person a grëwyd ar CareFirst / Eclipse yr opsiwn i gynnwys manylion iaith gyntaf/iaith a ffefrir y person hwnnw (gan gynnwys y Gymraeg).
- Mae ein Gwasanaethau Comisiynu yn ystyried yr Iaith wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. *“Rhaid i'r Darparwr Gwasanaeth ddefnyddio gweithwyr gofal sy'n gallu diwallu anghenion penodol neu anghenion diwylliannol a/neu grefyddol y Defnyddwyr Gwasanaeth, fel y nodwyd yn y cynllun cymorth. Mae hyn yn cynnwys dewis iaith y Defnyddiwr Gwasanaeth h.y. siaradwr Cymraeg.”*
- Caiff staff eu hannog a'u cefnogi i ddysgu a gwella eu sgiliau Iaith drwy Cymraeg Gwaith a chyfleoedd dysgu dwys.
- Mae rhwydwaith o Hyrwyddwyr y Gymraeg wedi'i ddatblygu o fewn yr adran Cymunedau. Fodd bynnag, mae gallu'r Tîm Corfforaethol yn adran y Prif Weithredwr i roi cefnogaeth wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd.
- Mae elfennau hyrwyddo'r Gymraeg i gyd yn eu lle – fel posteri, bathodynnau iaith, proffil iaith Teams, y defnydd o'r Iaith mewn Technoleg, symbolau iaith ar ffeiliau cleientiaid.
- Mae ein Academi Gofal yn ystyried sgiliau iaith Cymraeg o fewn recriwtio ac o fewn datblygiad proffesiynol.
- Mae Pentre Awel wedi datblygu asesiad o'r effaith bosibl ar y Gymraeg a chynllun gweithredu i liniaru rhai effeithiau / mwyhau'r cyfraniad.

**Camau gweithredu posibl**

- Sefydliadau gofal trydydd sector a sector annibynnol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o anghenion Cymraeg pobl a rhannu arfer gorau ac adnoddau ar ddarparu gofal yn Gymraeg i ddarparwyr gwasanaethau.
- Cynnal dadansoddiad o ddata ar blatfform Eclipse o ran dewis iaith / anghenion iaith – ydyn ni'n dal yr holl ddata ac a oes gennym unrhyw fylchau mewn gwybodaeth? Ydyn ni'n cadw'r data o ran plant a'u teuluoedd?
- Ymgymryd â mapio systemau CRM eraill sy'n seiliedig ar Gymunedau i weld a yw'r dewis iaith yn cael ei chofnodi.
- Ailedrych ar y cyfleoedd Dysgu a Datblygu ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod egwyddorion y fframwaith Mwy na Geiriau, yn benodol y Swyddog Actif, yn cael eu cynnwys ym mhob cyfle. Rhaglenni hyfforddi a datblygu proffesiynol i gynnwys modiwl/llinyn ar effaith sensitifrwydd iaith ar effeithiolrwydd asesiadau a gofal, y cynnig Actif, a'r cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.
- Ystyried targedu timau allweddol i gwblhau Mwy na Geiriau: Cyfathrebu mewn Iechyd a Gofal (porth.ac.uk)
- Myfyrio ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Cynllun Ardal Leol, er mwyn sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei roi i'r Iaith fel rhan o'r anghenion a nodwyd.
- Datblygu cynllun cyfathrebu byr i atgoffa ac annog staff o'r egwyddorion a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- Ystyried y meysydd sy'n peri pryder o ran cynllunio ein gweithlu a'r cyfleoedd i hyrwyddo sgiliau Cymraeg (yng nghyd-destun heriau recriwtio).

**Ar gyfer ystyriaeth**

Mae Adroddiad Blynyddol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru 2022-23 yn canolbwyntio ar y gwaith a wneir o fewn y Byrddau Iechyd. Fodd bynnag, rydym wedi cael gwybod bod disgwyl i'r Bwrdd ohebu ag Awdurdodau Lleol i gael diweddariad ar eu gwaith mewn perthynas â'r Fframwaith.

**Perfformiad**

Mae gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn darparu yn gyson yn newis iaith yr unigolyn ar draws y gwasanaethau Oedolion a Phlant. Tra bo hyfforddiant Cymraeg pellach yn parhau ar draws y gwasanaethau, mae'r tablau isod yn dangos ein bod mewn sefyllfa gref ar hyn o bryd.

| Ysgrifenedig | |
|---|---|
| Lefel Iaith Gymraeg | Nifer y Gweithwyr |
| 0 | 62 |
| Lefel 1 | 462 |
| Lefel 2 | 184 |
| Lefel 3 | 109 |
| Lefel 4 | 88 |
| Lefel 5 | 95 |
| Dim | 151 |
| Cyfanswm | 1151 |

| Llafar | |
|---|---|
| Lefel Iaith Gymraeg | Nifer y Gweithwyr |
| 0 | 59 |
| Lefel 1 | 447 |
| Lefel 2 | 200 |
| Lefel 3 | 143 |
| Lefel 4 | 82 |
| Lefel 5 | 164 |
| Dim | 56 |
| Cyfanswm | 1151 |

## Darpariaeth Gofal Uniongyrchol y Cyngor a Gofal a Gomisiynir

Ers lansio Hybiau Cymunedol Cysylltu Sir Gâr (cyfuniad o ddarparwyr trydydd sector yn 2023), mae hyder mewn ymwybyddiaeth o wasanaethau yn parhau i dyfu, ac mae mwy na 4,500 o atgyfeiriadau yn 2024/25 yn profi hynny. Mae lefelau atgyfeiriadau ar gyfer unigolion sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig hefyd wedi gwella, yn dilyn gweithgareddau cydgynhyrchu gyda chymunedau wedi'u targedu i wella llwyddiant mentrau yn yr ardaloedd hynny. Mae datblygiad y platfform, Cysylltu Sir Gâr - Canfod gwybodaeth a chymorth yn Sir Gaerfyrddin wedi parhau drwy gydol 24/25, gyda datblygiadau meddalwedd ychwanegol i gynyddu ymarferoldeb, gwella profiad y defnyddiwr, a theilwra'r safle yn unol ag adborth gan drigolion. Ar hyn o bryd mae'r platfform yn rhannu 213 o weithgareddau ac mae ganddo 1341 o aelodau.

Mae Bodlonrwydd Gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel (>95%) a chyrhaeddwyd y Dangosydd Perfformiad Allweddol o ran perfformiad ac ansawdd yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae partneriaid y Gwasanaeth Ataliol Cymunedol wedi sicrhau dros £1 miliwn mewn cyllid grant ychwanegol i gefnogi'r agenda ataliol ymhellach, gan dargedu materion pwysig fel gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymuned amrywiol, mynd i'r afael â bylchau trafnidiaeth, a gwella diogelwch cymunedol drwy ddarparu pecynnau technoleg pwrpasol.

Mae ymagwedd gydweithredol y bartneriaeth wedi cael ei chydnabod mewn pedair seremoni wobrwyo, ac mae cyrff dyfarnu wedi cynnwys Anrhydeddau Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, a dau sefydliad trydydd sector. Hefyd, mae'r Bartneriaeth wedi dechrau prosiect Esiampl Bevan, sy'n ceisio dysgu gan ddarparu a chydweithio â phartneriaid a dinasyddion i wella Gwasanaethau Cymorth Ymyrraeth Gynnar sy'n Gysylltiedig â Thai. www.bevancommission.org. Gofynnwyd i Staff y Gwasanaeth Ataliol pa elfennau o'r gwasanaeth, yn eu barn nhw, oedd bwysicaf i'r unigolion. Dywedodd y staff:

> **"Beth sydd bwysicaf i ddinasyddion yn aml yw'r teimlad eu bod yn cael eu cydnabod a'u bod heb gael eu hanghofio. Mae ymweliadau cartref yn bwysig iawn ar gyfer hyn gan fod gan lawer o ddinasyddion anawsterau o ran cludiant a symudedd, sydd wedi arwain at ynysu cymdeithasol, felly mae'r syniad o rywun yn cymryd yr amser i ddod i'w gweld yn hwb enfawr i'w hyder a'u hunan-barch. Mae'n hollbwysig sicrhau bod y cymorth wedi'i deilwra i anghenion unigol pob un trwy wybod beth yw eu dyheadau penodol. Mae defnyddio gweithgareddau creadigol fel y celfyddydau a cherddoriaeth yn aml yn ffordd dda o greu ymdeimlad o gyflawni."**

Nid pobl sydd wedi cael cymorth yn unig sy'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth ataliol, ond gweithwyr proffesiynol hefyd:

> Diolch o galon i chi. Dydych chi ddim yn sylweddoli'r gwahaniaeth rydych chi wedi ei wneud; roeddwn i'n teimlo'n isel iawn tro diwetha ffonioch chi fi. Fe wnaeth y sgwrs gyda chi fyd o wahaniaeth i fi. - Gofalwr di-dâl

> **Fe wnaethoch chi esbonio'r broses a'r cymorth fyddai ar gael yn glir i'm cleient, ac roeddwn i'n hoffi'ch agwedd uniongyrchol a realistig, heb wneud unrhyw addewidion ffug.**
> **-Gweithiwr Proffesiynol**

> Gwasanaeth gwych - cymaint o help a ches i alwad maes o law i weld sut oedd pethau'n mynd.
> -Dinesydd

Ers gweithredu'r Gwasanaethau Ataliol Cymunedol, mae Micro Gomisiynu wedi bod yn nodwedd bwysig yn y model gwasanaeth, i gydnabod gwerth sylweddol sefydliadau llai a'r effaith gadarnhaol maent wedi'i chael. Mae Micro Gomisiynu wedi ein galluogi ni i gefnogi gwaith yr 19 sefydliad cymunedol sy'n gallu cynnig gwasanaethau pwysig i'r gymuned. Cyfanswm gwerth y prosiectau hyn a ariannwyd yw £152,750.

Fel gyda phob datblygiad comisiynu, byddwn yn cynnal adolygiad comisiynu dros y 18-24 mis nesaf gyda'n darparwyr cymunedol/trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn ystyried beth sy'n gweithio'n dda a meysydd datblygu a fydd yn llywio ein trefniadau comisiynu yn y dyfodol.

## Gofalwyr di-dâl

Mae gofalwyr di-dâl hefyd yn cael eu cefnogi gan yr hybiau cymunedol gyda 660 o ofalwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth yn Ch1-3 24/25. Un o'r gofalwyr hynny oedd Sonia.

- Roedd Sonia wedi bod yn gofalu am ei mab ers 18 mlynedd, tra hefyd yn gweithio'n llawn amser ac yn rheoli ei chyflwr iechyd ei hun. Roedd Sonia wrth ei bodd â'i swydd ond ni allai barhau i wneud y ddau beth wrth i'r rôl ofalu gynyddu a dod yn fwy heriol. Bu'n rhaid i Sonia roi'r gorau i'w swydd.
- Dros y misoedd dilynol, dirywiodd sefyllfa ariannol Sonia yn gyflym, a phan gafodd fynediad i'r gwasanaeth, roedd Sonia mewn argyfwng. Roedd hi'n mynd heb hanfodion yn rheolaidd, ac roedd hi'n mynd i mwyfwy o ddyled drwy'r amser. Roedd yr effaith ar ei llesiant corfforol, emosiynol ac ariannol yn achosi trallod sylweddol.
- Roedd cael mynediad i'r gwasanaeth materion ariannol wedi **newid bywyd** Sonia. Yn dilyn cymorth cynhwysfawr, personol, teulu cyfan, roedd incwm Sonia **£11,114.16** y flwyddyn yn fwy. Arbedodd **£836** ar ei biliau bob blwyddyn. Mae wedi cael **£234** mewn grantiau ac mae bellach yn gwybod ble i fynd am **gymorth** gyda'i rôl ofalu.
- Mae'r newid hwn yn golygu gall Sonia ganolbwyntio ar ei rôl ofalu gan fod y straen ariannol sydd arni'n llai.
- Mae Sonia a'i mab anabl yn hapusach ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y gymuned.

Mae'r cynllun Pasbort i Hamdden wedi grymuso 78 o ofalwyr i gael mynediad at wasanaethau hamdden CSC, gan arwain at dros 700 o sesiynau ymweld yn 2024. Bu rhai gofalwyr yn edrych ar weithgareddau newydd, tra bo eraill wedi gwneud newidiadau sylweddol, hirdymor i'w ffordd o fyw. Dywedodd 100% o'r cyfranogwyr fod eu llesiant yn well, eu bod yn teimlo'n llai ynysig, a'u bod yn gwbl hapus â'r cynnig. Caerfyrddin oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd, ac yna Llanelli, Rhydaman, Llanymddyfri, a Sanclêr.
Mae seibiannau byr a seibiant i ofalwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol: Parhaodd y Taliad Uniongyrchol Amgylchiadau Eithriadol Gofalwyr i gynnig cymorth wedi'i bersonoli i ofalwyr unigol drwy gydol 2024/25. Derbyniodd cyfanswm o 79 o ofalwyr daliadau, a ddefnyddiwyd at ystod eang o ddibenion, gan gynnwys seibiannau wedi'u teilwra a diwrnodau allan, offer ar gyfer hobïau ac ymarfer corff, dosbarthiadau addysgol fel gwersi gyrru, a chyllid i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Yn ogystal, defnyddiodd rhai gofalwyr y gronfa i brynu offer neu nwyddau gwyn i helpu â'u cyfrifoldebau gofalu, gan ganiatáu mwy o amser iddynt ganolbwyntio ar eu llesiant personol.

Nod y prosiect Cydgynhyrchu Gofalwyr *(Carers Coproduction)*, a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru, oedd tynnu sylw at bwysigrwydd seibiannau byr i ofalwyr a'u hannog i rannu eu barn a'u profiadau. Roedd y prosiect yn grymuso gofalwyr i werthuso'r opsiynau oedd ar gael a dylanwadu ar flaenoriaethau cyllido yn y dyfodol. Roedd dulliau ymgysylltu yn cynnwys arolygon ar-lein, ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, a sesiynau wedi'u targedu ar gyfer gofalwyr ifanc a grwpiau lleiafrifol. Cymerodd cyfanswm o 165 o ofalwyr ran ar-lein, a 248 yn bersonol.

Mae trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol wedi cael eu trawsnewid yng Ngorllewin Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, gan gymhwyso methodoleg gynaliadwy a strategol. Mae hyn wedi arwain at newid sylweddol o gynigion cystadleuol tuag at ymagwedd o safon sy'n canolbwyntio ar y person, a welodd gryfderau partneriaid trydydd sector yn dod i'r amlwg, gan gyfuno eu harbenigedd a'u hasedau mewn un bartneriaeth gonsortia i ddiwallu anghenion rhanbarthol amrywiol.

Mae'r contract rhanbarthol sy'n cael ei frandio fel 3CIPA (Gwasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol y Tair Sir), yn cynrychioli'r partneriaid cyflawni sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth yng Ngorllewin Cymru. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn Wasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol (IPA) i'r rhai sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd fel y nodir yn Rhan 10 o'r Ddeddf.

Mae'r model y mae 3CIPA yn ei gyflawni yn cynnwys un pwynt cyswllt, nodwedd sy'n anelu at leihau cymhlethdod a dryswch i'r defnyddiwr trwy ddarparu llwybr mynediad hawdd i wasanaethau. Mae hefyd yn darparu porth ar gyfer sicrhau bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu symud ymlaen i IPA.

Ers ei weithredu, mae nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y 3CIPA wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn gan adrodd cynnydd o 7.2%. Mae hyn yn cynrychioli'r galw am wasanaethau yn ogystal â'r anghenion newidiol a'r ddemograffeg sy'n cyd-fynd â'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Ar ben hynny, mae cymhlethdod atgyfeiriadau yn golygu bod gan weithwyr achos lwyth gwaith mwy a bod achosion yn tueddu i gymryd mwy o amser i'w cau.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn daliadau arian parod a wneir i unigolion sy'n gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth ac sy'n dewis derbyn Taliadau Uniongyrchol i ddiwallu eu hangen asesedig. Trwy dderbyn y taliadau hyn yn uniongyrchol, mae gan unigolion yr hyblygrwydd i ddewis eu darparwyr gofal ac i deilwra eu trefniadau cymorth i ddiwallu eu hanghenion unigryw.

Nod y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yw darparu'r wybodaeth, y dulliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar unigolion i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth, i sefydlu eu trefniadau mewn modd sy'n eu paratoi ar gyfer llwyddiant, i adeiladu dealltwriaeth ar gyfer cyflawni rolau a chyfrifoldebau priodol, ac i ddarparu cymorth i reoli cyllidebau yn llwyddiannus er mwyn cyflawni eu nodau personol a'u canlyniadau a ddymunir.

Ers i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno yn 2021, rydym wedi gweld cynnydd o 51% yn y defnyddwyr gwasanaeth, ac ar hyn o bryd mae gennym 527 o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â threfniant taliad uniongyrchol. O'r herwydd mae'r Gwasanaeth Cymorth yn cael ei ddatblygu'n gyson, er mwyn sicrhau bod arferion gorau yn cael eu dilyn a bod trefniadau gwasanaeth yn arloesol, gan gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, yn ogystal â sicrhau gwerth am arian a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

Mae dwy garreg filltir ar gyfer 2024 yn cynnwys gweithredu Polisi Taliadau Uniongyrchol wedi'i ddiweddaru a chychwyn gwasanaethau Micro-fentrau. Mae'r polisi diweddaraf yn darparu fframwaith clir ar gyfer gweinyddu Taliadau Uniongyrchol, gan amlinellu rolau, cyfrifoldebau a chanllawiau i gefnogi cysondeb a thryloywder ar draws y gwasanaeth. Mae'r polisi newydd yn sicrhau bod ein harferion yn cyd-fynd ag arferion gorau a safonau rheoleiddio cyfredol, gan

feithrin sylfaen gryfach ar gyfer cyflwyno Taliadau Uniongyrchol. Mae dechrau gwasanaethau Micro-fentrau a ariennir gan Daliadau Uniongyrchol wedi rhoi cyfle i barhau i arallgyfeirio'r farchnad a galluogi mwy o bobl i ymarfer dewis a rheolaeth dros sut mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu.

Cawsom adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn dilyn eu hymweliad ym mis Awst '24 i ddeall profiadau pobl o dderbyn taliad uniongyrchol wrth gyflawni eu canlyniadau llesiant.

> **Rwy'n teimlo fel bod gan [berson] fywyd tu fas i'r tŷ, o'r blaen bodoli'n unig roedd [person] yn ei wneud. (Person / Cynrychiolydd)**

> **Mae'n teimlo ein bod ni'n dryloyw fel Awdurdod Lleol ac yn arddel diwylliant o ddysgu. (Staff)**

Mae'r **Prosiect Catalyddion Gofal** yn cefnogi pobl i sefydlu a datblygu eu gwasanaethau gofal/cymorth bach, annibynnol eu hunain – o'r enw 'micro-fentrau'. Dechreuodd y prosiect yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2023. Rydym wedi gweld twf sylweddol ers y lansio ac erbyn hyn mae 63 o ficro-fentrau yn Sir Gaerfyrddin, ac mae 73% ohonynt yn cynnig gofal personol. Mae'r micro-fentrau yn cael eu cefnogi gan gatalydd cymunedol a gynhelir gan PLANED ac mae'n rhan o ddull Gorllewin Cymru o ddatblygu a chefnogi micro-fentrau ledled y rhanbarth.

Cefnogir datblygiad mentrau cymdeithasol gan swydd ddynodedig a gynhelir gan CAVS, ac mae'n allweddol wrth weithio gyda chymunedau a grwpiau lleol i ddatblygu mentrau cymdeithasol, sy'n ofynnol o dan Adran 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae llawer o'r grwpiau cymunedol yn cael eu cefnogi i ddatblygu'n fentrau cymdeithasol er enghraifft:

*Grŵp cymunedol yn Llanelli yw People Speak Up.*

> **Cysylltu pobl a chreu cymunedau iach, cydnerth drwy adrodd straeon, gair llafar, ysgrifennu creadigol a chelfyddydau cyfranogol. Maen nhw'n cynnig gweithdai creadigol, gwirfoddoli, hyfforddiant, digwyddiadau a sgyrsiau.**

Mae'r arweinydd mentrau cymdeithasol yn eu cefnogi i ddatblygu menter gymdeithasol ar gyfer eu carfanau ieuenctid a LGBTQ+ lle rydym yn gallu cynhyrchu nwyddau i'w gwerthu a chynnal digwyddiadau sydd o fudd i iechyd a llesiant pobl – yn enwedig iechyd meddwl

– ac sy'n codi arian ar gyfer mwy o weithgareddau a gwasanaethau iechyd a llesiant. Yn bwysig, mae dyraniad bach o gyllid y gall arweinydd y mentrau cymdeithasol ei ddefnyddio ar gyfer prif fentrau cymunedol.

Mae Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn ofyniad statudol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Lluniwyd y ddogfen ranbarthol gyntaf yn 2022, yn dilyn gwaith paratoi sylweddol. Pwrpas yr Adroddiad yw asesu'r galw presennol ac yn y dyfodol am Ofal a Chymorth, ochr yn ochr â digonolrwydd gwasanaethau (gan gynnwys ataliol) a sefydlogrwydd gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig nawr ac i'r dyfodol. Roedd yr adroddiad yn gwneud yr argymhellion allweddol canlynol:

Plant

- Adolygu a gwella'r 'cynnig' gofal maeth
- Contractau bloc meddal yr Asiantaeth Faethu Annibynnol
- Ehangu darpariaeth cartrefi gofal mewnol a 3ydd sector
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, seibiant ac ar ffiniau gofal

Oedolion oedran gweithio

- Ehangu Cysylltu Bywydau fel ffit rhagorol gyda heriau a chyfleoedd.
- Cartrefi gofal: cynyddu argaeledd darpariaeth leol, gan gynnwys darpariaeth uniongyrchol.
- Ehangu'r ddarpariaeth gymunedol ymhellach (gan gynnwys tai â chymorth a modelau eraill)

Oedolion hŷn

- Cartrefi gofal: cynyddu argaeledd darpariaeth leol arbenigol (Dementia a Nyrsio), gan gynnwys drwy ddarpariaeth uniongyrchol.
- Atgyfnerthu gofal cartref.
- Ehangu'r ddarpariaeth gymunedol ymhellach (gan gynnwys *tai â chymorth a modelau eraill)*

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, gan ddefnyddio'r adnoddau cyfalaf a refeniw craidd a rhanbarthol sydd ar gael. Mae buddsoddiad wedi cefnogi cynlluniau cyfalaf, trwy gymryd rhan yn y Bwrdd Cyfalaf Strategol rhanbarthol. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi cymryd rhan ym Mwrdd Rhaglen Sefydlogrwydd y Farchnad, a gytunodd ar bedwar prosiect blaenoriaeth ac sydd wedi'u gyrru yn eu blaenau:

- Ymchwilio i ddigonolrwydd capasiti comisiynu strategol wrth ymateb i heriau sy'n deillio o ddiffyg cyflenwad. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn capasiti comisiynu strategol.
- Gweithio i feithrin ymagweddau gwell at gomisiynu gofal a chymorth plant.
- Prosiect i ddatblygu sefyllfa polisi rhanbarthol mewn perthynas â Throsglwyddiadau, ynghyd ag ymchwilio i ddymunoldeb sefydlu Panel Anghenion Cymhleth rhanbarthol.
- Astudiaeth sy'n archwilio cyfreithlondeb a dichonoldeb datblygu darpariaeth nyrsio sector cyhoeddus yn y Rhanbarth.

Mae Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn dal i fod yn ysgogiad i effaith gyflawnadwy. Mae gwaith bellach ar y gweill i adolygu'r ddogfen wreiddiol, gyda data wedi'i ddiweddaru, asesiad o'r cynnydd a wnaed, a gwerthusiad i weld ai'r heriau a nodwyd yw'r blaenoriaethau pennaf o hyd.

Daeth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu gofal a chymorth yng Nghymru i rym ar 1 Medi 2024, ac mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Côd Ymarfer yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau 'gofal a chymorth', gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth cynnar ac atal, ac mae'n amlinellu'r egwyddorion a deg safon gydymffurfio ar gyfer awdurdodau comisiynu.

Mae cydymffurfio'n unol â'r côd trwy fframwaith hunanasesu cenedlaethol, ac mae gwaith yn cael ei wneud arno'n lleol ac yn rhanbarthol ar hyn o bryd.

Gan gydnabod bod Côd Ymarfer statudol erbyn hyn, mae buddsoddi yn ein gweithlu comisiynu yn bwysicach nawr nag erioed. Cynhaliwyd cynhadledd gomisiynu ar gyfer Gorllewin Cymru ym mis Mawrth '25 a roddodd gyfle i fyfyrio ar gynnydd a rhwydweithio, rhannu arfer da ar draws y rhanbarth a hefyd lansio llwybr gweithlu gyrfa drafft ar gyfer ein timau comisiynu.

### Cytundeb Cyn-leoli Gorllewin Cymru

Mae un cytundeb (contract) cyn-leoli Gorllewin Cymru (ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal i Oedolion Hŷn wedi bod yn cael ei ddatblygu drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r sector darparwyr a Fforwm Gofal Cymru wedi bod yn rhan fawr o'i ddatblygiad. Mae ymarfer ymgynghori diweddar wedi casglu rhagor o safbwyntiau ar faterion allweddol a fydd yn cael ystyriaeth wrth lywio dogfen lawn a therfynol, yn barod i'w gweithredu, a ddisgwylir cyn diwedd Mai 2025.

Fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, mae'r Cytundeb Cyn-leoli yn ystyried dysgu i sicrhau bod darparwyr yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau / digwyddiadau diogelu a dysgu, a bod y cymalau wedi cael eu hystyried gan y Tîm Diogelu Rhanbarthol.

Hefyd mae'n fwriad adolygu ac adnewyddu'n rheolaidd ddarpariaethau'r contract, er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn berthnasol tra bydd.

### Fframwaith Sicrhau Ansawdd:

Mae'r datblygiad hwn wedi dod i ben ac yn dilyn peilot llwyddiannus a datblygu offer/templedi ategol, mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd (Cartrefi Gofal Pobl Hŷn) bellach yn barod i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ei gymeradwyo.

Bydd cam nesaf y gwaith hwn yn cynnwys cynhyrchu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer gwasanaethau eraill sydd wedi'u rheoleiddio (h.y. Cartrefi Gofal ar gyfer Oedolion Oedran Gweithio, Gofal Cartref a Llety/Byw â Chymorth.)

Bydd angen fframwaith tebyg ar gyfer y Gwasanaethau Plant.

## Beth mae pobl yn ei ddweud

### Gwobrau

Mae Llesiant Delta wir wedi disgleirio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ennill cydnabyddiaeth ar draws sawl platfform pwysig. Mae ei ymroddiad i ragoriaeth ac arloesedd mewn gofal cymdeithasol wedi cael ei ddathlu gyda nifer o wobrau:

Yn y **Great British Care Awards - Rhanbarth Cymru 2024**, daeth Llesiant Delta i'r brig mewn sawl categori:

- **Gwobr Datblygu'r Gweithlu -** ENILLYDD
- **Gwobr Urddas mewn Gofal** - ENILLYDD
- **Gwobr Gweithiwr Gofalwr Cartref** – derbyniodd Mark Burt anrhydedd Canmoliaeth Uchel
- Cafodd eu hymdrechion ar y cyd eu cydnabod yng **Ngwobrau Arloesedd MediWales 2024**, lle enillon nhw'r **wobr Gofal Cymdeithasol - Arloesi trwy Gydweithio**.
- Anrhydeddwyd Llesiant Delta fel **Busnes Nid-er-elw y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Bae Abertawe 2025.**
- Yng **Ngwobrau TSA ITEC 2025**, llwyddon nhw i ennill y wobr **Trawsnewid Gwasanaeth**.
- Daeth cydnabyddiaeth genedlaethol yn y **Great British Care Awards Nationals 2025**, lle enillon nhw'r wobr **Urddas mewn Gofal.**

Enillodd Llesiant Delta a'r tîm gofal integredig anrhydedd **Gweithio mewn Partneriaeth** yng **Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2025**, gyda'r enillwyr i'w cyhoeddi ar Fai 1af. Cawsant y Wobr ochr yn ochr â'n Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion, Avril Bracey, am Arweinyddiaeth Ysbrydoledig.



## Gwobrau Cyflawniad Tîm

Cydnabu'r Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ymdrechion eithriadol Timau'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol i Blant yn ystod 2024/25. Fe aeth timau y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol yn gyson er mwyn perfformio'n rhagorol a goresgyn heriau, a hynny i gael canlyniadau cadarnhaol i bobl Sir Gaerfyrddin.

Er gwaetha'r heriau cynyddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, daliodd y timau hyn ati i arloesi ac arallgyfeirio yn eu dulliau, er mwyn gwella bywydau'r unigolion mwyaf agored i niwed yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i dimau a gafodd effaith sylweddol ar ganlyniadau i'r gymuned.












## Arolwg Gofal a Chymorth

Cynhaliwyd arolwg Gofal a Chymorth yn ystod Ebrill a Medi 2024, gan dargedu defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi cael Cynllun Gofal a Chymorth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Cafwyd 42 o'r ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaeth, 56 gan ofalwyr neu gynrychiolwyr yn mynegi barn defnyddwyr gwasanaeth, a 29 gan ofalwyr neu gynrychiolwyr yn mynegi eu barn eu hunain, a ddangosir yn y graff isod:

| | |
|---|---|
| 1 | Cyfanswm nifer yr arolygon a anfonwyd: 414 |
| 2 | Yr Ymatebion a Ddaeth i Law: 98 |
| 3 | Cyfradd Ymateb: Oddeutu 24% |
| 4 | Ymwybyddiaeth: Roedd 41 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwybod pam y cysylltodd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol â nhw. |
| 5 | Gwrando ar sylwadau: Roedd 33 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo bod eu barn yn cael ei chlywed. |
| 6 | Cyngor a Gwybodaeth: Roedd 31 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod wedi cael y cyngor a'r wybodaeth gywir pan oedd eu hangen arnynt. |
| 7 | Urddas a Pharch: Roedd 39 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. |
| 8 | Boddhad â Gofal: Roedd 40 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n hapus â'r gofal a'r cymorth a gawsant. |
| 9 | Ymweliadau â'r Wefan: Nid oedd 35 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi ymweld â'r dudalen we Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. |

## Arolygu ac Adolygu

Rydym wedi cael arolygiad gwych o'r Gwasanaethau Plant:

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
**Gwasanaethau Plant Rhagfyr 2024**
**Adroddiad Arolygu Gwerthuso Perfformiad**

“Mae partneriaid yn gweithio i ethos cyffredin o ddiogelu plant. Mae uwch-arweinwyr yn yr awdurdod lleol yn rhannu gweledigaeth ac ymagwedd gadarnhaol at gydweithio ar draws cyfarwyddiaethau. Mae rheolwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'i gilydd.”

“Mae arweinwyr yn glir ynghylch arferion rheng flaen ac mae podiau gweithredol (sy'n cynnwys grwpiau o staff sy'n gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â sefyllfaoedd teuluol) yn gweithio'n effeithiol i sicrhau diogelwch a llesiant plant gan ddefnyddio ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth. Mae staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd, cyfleoedd i gael hyfforddiant ac mae cyfathrebu clir rhwng staff strategol a gweithredol am newidiadau a datblygu gwasanaeth.”

"Yn bennaf, mae cydweithio yn dda ar draws yr awdurdod lleol. Mae yna bartneriaeth strategol gadarnhaol sy'n gweithio gyda chefnogaeth gorfforaethol ar gyfer nodau ar y cyd. Yn weithredol, mae partneriaid yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion llesiant plant yn ogystal â chadw pobl yn ddiogel. Mae yna enghreifftiau o ymarferwyr ar draws asiantaethau sy'n gweithio'n ystyrlon gyda phlant."

"Mae lleisiau pobl yn cael eu clywed, ac mae eu dewisiadau yn cael eu parchu. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu perthnasoedd cefnogol ac ymddiriedol gyda phobl. Mae tystiolaeth o lawer o bobl yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw."

"Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth cyn lleied ag sy'n bosib, ac ar atal anghenion rhag cynyddu, gan wneud gwelliannau i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir."

"Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i faterion diogelu yn brydlon ac yn effeithiol. Maent yn cymryd pryderon o ddifrif ac yn gweithredu'n gyflym i asesu a mynd i'r afael â risgiau. Mae eu protocolau clir a'u cydweithrediad ag asiantaethau perthnasol yn sicrhau bod materion diogelu yn cael eu rheoli gyda lefel uchel o broffesiynoldeb a gofal. Yn ogystal, maent yn cynnal cyfathrebu agored â'r holl bartïon sy'n gysylltiedig, sy'n helpu i sicrhau bod diogelwch a llesiant unigolion yn cael eu blaenoriaethu trwy gydol y broses.”

‘Dwi ddim yn gwybod ble fydden ni fel teulu heb fewnbwn y gwasanaethau plant. Maen nhw wedi gwella fy mywyd i a bywydau fy mhlant i er gwell. Mae gyda fi blant hapusach a chartref hapusach. Maen nhw'n gweithio gyda fi, er enghraifft ar y cynllun diogelwch. Rydyn ni'n ei ddarllen gyda'n gilydd, rwy'n gallu ychwanegu ato fe ac yna dwi'n ei gymeradwyo.'

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad - Y Gwasanaethau Plant

**Bu Arolygiaeth Gofal Cymru a TSA hefyd yn arolygu Llesiant Delta:**

**Llesiant Delta Connect**
**Gorffennaf 2024**

“Mae pobl yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel am gyfnod cyfyngedig a ddarperir drwy Unigolyn Cyfrifol, rheolwr a thîm staff ymroddedig ac angerddol. Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a nhw sy'n ysgogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r gwasanaethau amlddisgyblaethol a ddarperir drwy Llesiant Delta. Mae yna ystod o offer archwilio o safon a thrwy eu presenoldeb yn y gwasanaeth ac ymweliadau Rheoliad 73, mae gan yr Unigolyn Cyfrifol oruchwyliaeth gref dros y gwasanaeth."

"Mae staff yn siarad yn angerddol am pa mor bwysig yw gweithio i Llesiant Delta, a'u rôl wrth gefnogi pobl, a hynny'n aml ar adegau anodd. Mae'r ymroddiad, y gofal a'r tosturi sy'n cael eu dangos gan weithwyr gofal yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr."

Mae staff gofal yn siarad yn angerddol am weithio i Llesiant Delta a'r effaith gadarnhaol ar y bobl maen nhw'n eu cefnogi. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym!

*"Rwy'n mwynhau pob agwedd ar fy swydd, ond fy hoff beth yw gweld yr effaith mae'r gwasanaeth yn ei chael ar bawb rydyn ni'n ymweld â nhw. Mae'n swydd sy'n rhoi cymaint o foddhad", "Dwi wrth fy modd. Rwy'n dwlu ar beth ni'n ei wneud a helpu pobl mewn angen, mae'n rhoi sut foddhad"* ac *"mae gweithio fel ymatebwr yn waith sy'n rhoi sut bleser ac rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a fy sgiliau i helpu'r bobl fwyaf agored i niwed".*

Mae gan y rheolwr bolisi drws agored, ac mae'r tîm staff yn gwerthfawrogi eu hargaeledd a'u harweiniad yn fawr. Mae gweithwyr gofal yn cael cyfnod sefydlu chwe mis i'r gwasanaeth.

Mae ymarfer goruchwylio yn cael ei gynnal bob chwarter ac mae cyfarfodydd llesiant ychwanegol yn cael eu trefnu gyda staff pryd bynnag y bo angen. I raddau helaeth, mae'r adborth am arweinyddiaeth y gwasanaeth yn gadarnhaol, mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac maent yn cael eu cymell a'u hannog i wneud eu gorau dros bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym,

*"Mae [rheolwr] bob amser yno i gymryd galwad ffôn neu ateb unrhyw gwestiynau sydd gyda fi. Os nad yw hi'n ateb galwad ar unwaith, mae hi bob amser yn dod nôl ata i. Bydd hi wastad yn dod o hyd i ateb i unrhyw broblemau neu ymholiadau sydd gyda fi".*

**Ar ôl heriau sylweddol rydym wedi newid pethau yn dilyn canlyniad yr arolygiad ar gartref preswyl anabledd y Gwasanaethau Plant:**

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
**Adroddiad yr Arolygiad ar Garreglwyd**
**Tachwedd 2024**

Yn yr arolygiad blaenorol, fe wnaethon ni nodi'r diffyg cydymffurfio, ac mae'r gwasanaeth yn agored i lwybr gwella a gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Canfuom yn yr arolygiad hwn fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i fynd i'r afael â diffygion mewn perthynas ag asesiadau darparwyr a gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol.   Mae dau hysbysiad gweithredu sy'n flaenoriaeth a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf bellach wedi'u cyflawni. Mae maes i'w wella ar gyfer defnydd priodol o reoli a chyfyngu hefyd wedi'i gyflawni.

Mae pobl ifanc yn hoffi byw yn y gwasanaeth ac yn cael gwneud y pethau sydd bwysicaf iddynt. Mae staff gofal yn trin pobl ifanc gydag urddas a pharch ac wedi ymroi i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Mae cynlluniau personol yn rhoi arweiniad clir ar sut i gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu nodau a'u dyheadau. Maent yn cael cefnogaeth i fynychu darpariaethau addysg a cheisir profiad gwaith os nad ydynt yn mynychu'r ysgol mwyach.

Mae staff gofal yn wybodus ac yn derbyn hyfforddiant addas i'w galluogi i ddarparu cymorth effeithiol. Maent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi gan y rheolwr ac yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn gyfforddus ac wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n byw yn y gwasanaeth.

"Mae pobl ifanc yn cael cefnogaeth i dreulio amser gyda phobl sy'n bwysig iddyn nhw. Mae trefniadau ar waith i bobl ifanc dreulio amser ystyrlon gydag aelodau o'r teulu ar ymweliadau cartref ac ymweliadau â'r gwasanaeth. "
Dywedodd un o'r teulu wrthon ni;  *"Rydyn ni'n hapus iawn; mae'r tîm staff yn ardderchog".*
"Mae dyddiaduron dyddiol pobl ifanc yn cael eu cwblhau'n gyson gan staff gofal ac maen nhw'n cynnwys gwybodaeth fanwl am arferion dydd a nos. Mae dyddiaduron bwyd a siartiau pwysau wedi'u cwblhau ac maent yn dangos bod ffordd o fyw gytbwys gan bobl ifanc.  "
Mae staff gofal yn garedig ac mae ganddyn nhw wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r bobl ifanc maen nhw'n eu cefnogi.  Dywedodd un wrthon ni; *"Rwy'n caru dod i'r gwaith a gwneud gwahaniaeth, mae'n braf gweld pobl ifanc yn dod ymlaen".*

**Barnwyd bod ein holl wasanaethau rheoledig i oedolion wedi cael eu barnu fel rhai da o leiaf:**

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
**Cartref Awel Tywi**
**Chwefror 2025**

Mae staff gofal yn derbyn ystod eang o gyfleoedd hyfforddi gorfodol a phenodol. Maen nhw'n wybodus am y bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw, ac mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y rhai sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau.
Mae cofnodion gofal yn rhoi synnwyr o'r unigolyn, ond mae angen manylion ychwanegol i adlewyrchu'n well sut mae eu hanghenion gofal presennol i'w diwallu.

Mae'r rheolwr, y dirprwy reolwr a'r uwch-ofalwyr yn gwneud tîm arweinyddiaeth cryf. Maent yn cael eu cefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol i ddarparu gwasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y bobl sy'n byw yn Awel Tywi, eu perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn defnyddio'r rhain ac ystod o offer archwilio o safon i sicrhau bod ganddynt drosolwg trylwyr ar y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mae rhaglen barhaus o baentio a gwella ar waith.

Gellid rhoi ystyriaeth bellach i addurniadau Mewnol i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia yn well. Mae'r gerddi cymunedol yn cynnig lleoedd deniadol a diogel i bobl eu defnyddio a chymdeithasu.

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol a meddygol yn ymwneud yn rhagweithiol â gofalu a chefnogi pobl. Ceir cysylltiadau cyfathrebu ardderchog â'r practis meddyg teulu lleol sy'n cynnal meddygfa'n wythnosol yn y gwasanaeth.

Dywedodd meddyg teulu fu'n ymweld wrthon ni, "Mae hwn yn wasanaeth ardderchog sydd â rheolwr galluog iawn, ac mae'r gofalwyr yn dda iawn yn eu gwaith. Maent yn rhoi gwybod am broblemau'n gywir ac yn dilyn cyfarwyddiadau meddygol yn dda. Mae perthynas waith dda iawn rhwng y cartref a'r Practis Meddyg Teulu. Rydym yn cynnal meddygfa wythnosol yn y cartref, mae'r rheolwr a'r staff bob amser yn barod ar gyfer hyn, ac mae'n gweithio'n dda iawn”.

Mae pobl a'u perthnasau'n canmol y staff gofal a'r cymorth maen nhw neu eu hanwyliaid yn eu derbyn. Dywedon nhw wrthon ni, "Mae'r gofalwyr yn dda iawn i fi, mae pawb mor garedig", "mae'r cartref yn darparu gofal a chymorth ardderchog i fy mam ac mae'r staff yn amyneddgar ac yn barchus tuag ati bob tro. Mae fy mam yn fodlon iawn yn Awel Tywi", "Alla' i ddim gweld bai ar y gofal mae fy mrawd yn ei gael. Maen nhw'n gofalu amdano fe'n dda, ac mae e'n cael ei drin â pharch ac urddas bob amser. Mae'r staff mor garedig a gofalgar nid yn unig i [X] ond i ni fel ei deulu".

Bydd angen gwneud gwaith adnewyddu yn achos rhywfaint o'r ddarpariaeth gofal oedolion er mwyn cael gradd rhagorol, ac er mwyn cyfateb safon y gofal â'r amgylchedd ffisegol.

### Gwaith comisiynu wedi'i wneud

Rydym wedi cyflawni'r gwaith comisiynu canlynol sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i gyd-gynhyrchu gwasanaethau newydd gyda phobl sydd â phrofiad byw, yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt:

| |
|---|
| Gwasanaethau Cymunedol – sy'n cwmpasu Gwasanaethau Cymunedol a Llety (Byw â Chymorth). Gweithredwyd y gwasanaeth yn Hydref 2024. Cytundeb Fframwaith. |
| Gofal Cartref - adnewyddu'r fframwaith presennol. Cwblhawyd yn 2024 |
| VAWDASV – sy'n cwmpasu Cymorth Hyblyg a'r Ddarpariaeth Lloches. Darperir y contract gan Consortia. Dechreuodd y Gwasanaeth yn Haf 2024. |
| Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai – model Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai newydd, sy'n cynnwys darpariaeth Fewnol a gwasanaethau trydydd sector arbenigol. Gwerthusiad tendr wedi'i gwblhau yng Ngwanwyn 2024. Fframwaith. Bydd y Gwasanaeth yn dechrau yn Haf 2025. |
| Gwasanaeth Cymorth Llesiant Ariannol – Model gwasanaeth newydd gan gynnwys mentrau mewnol, rhai a gomisiynwyd, a rhai a arweinir gan y gymuned. Gwerthusiad tendr wedi'i gwblhau yng Ngwanwyn 2025. |

I'r holl ofalwyr fu'n gofalu am mam cyn iddi farw. Hoffen ni fynegi ein gwerthfawrogiad am eu holl ofal, caredigrwydd a chyfeillgarwch, fe aethon nhw'r ail filltir, a byddwn ni'n ddiolchgar iawn am hynny wastad, fel yr oedd hi hefyd. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Rydych chi wedi bod mor hyfryd trwy hyn i gyd ac rydyn ni wir yn gwerthfawrogi hynny!

Diolch eto am eich cefnogaeth, rydych chi wedi bod yn wych! Dymuniadau gorau

Diolch eto am bopeth rydych chi wedi'i wneud i'n merch. Mae hi wedi gwneud cynnydd sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae yna lawer o resymau am hyn, ond un o'r prif rai yw'ch cymorth ac rydyn ni wedi gwerthfawrogi eich gwaith a'ch ymrwymiad iddi'n fawr. Mae gwybod eich bod chi yno yn cefnogi hi a ni wedi rhoi llawer o dawelwch meddwl i ni.

Fe wnaethoch chi fy nhrin i fel person ac ychwanegu ychydig o hiwmor ysgafn, pan oeddech chi'n gwybod bod angen ychydig o gefnogaeth foesol arna i i gael fi drwy'r cyfarfod hwnnw. Felly, ni allwn ni ddiolch digon i chi am y gefnogaeth honno pan oedd ei hangen arnon ni fwyaf!

Dim ond gair bach o ddiolch, fe wnes i gais am Fathodyn Glas i bartner fy mam ac yna ges i e-bost ddoe i ddweud ei fod yn y post! Newyddion campus achos nes i rybuddio nhw galle fe gymryd hyd at dri mis!

**Canmoliaeth gan y "Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol"**

> Cafodd ein aelod teulu ofal o'r safon uchaf, roeddech chi'n llawn empathi, roeddech chi'n cymryd eich amser ac roeddech chi'n dangos urddas a pharch

> Fel teulu allwn ni ddim canmol y tîm gofal digon, a hynny dan arweiniad N a K a oedd bob amser yn cynnig atebion ymarferol i'n problemau, gydag empathi a chydymdeimlad ond gan roi sicrwydd proffesiynol hefyd. Os oedden nhw'n dweud eu bod nhw'n mynd i drefnu rhywbeth, roedden ni'n gwybod byddai'n digwydd. Wedyn roedd gyda chi Nicola a Kim a oedd yn dîm o ofalwyr ymroddedig dros ben. Roedd yr enw'n dweud y cyfan. Roedden nhw'n poeni. Pobl mor hyfryd.

> Mae'r gofalwyr sydd gyda chi'n anhygoel

> Alla i ddim diolch digon i chi i gyd am y gofal rydych chi wedi'i ddangos i K heddiw yn ystod tywydd eithafol ac amgylchiadau heriol. Roedd eich ymrwymiad i sicrhau bod K yn ddiogel ac yn gyfforddus pan gollwyd y pŵer yn rhagorol

# Canmoliaeth y Gwasanaethau i Oedolion

## Canmoliaeth a ddaeth i law
**123**

### Y 3 Tîm Gorau

| | |
|---|---|
| 29 | Llif System a Gofal Brys |
| 28 | Gofal Cartref |
| 22 | Gofal tymor hir |

# Cwynion y Gwasanaethau i Oedolion

## Cwynion a ddaeth i law
**61**

| | |
|---|---|
| 51 | Cam 1 |
| 10 | Cam 2 |
| 91 | Ailgyfeirio / Dim camau pellach / Wedi'i Oedi |

Derbyniwyd 2 cwyn y tu allan i'r amserlen o 12 mis.
Cafodd 5 eu gwrthod

Aeth 6 o gŵynion i'r Ombwdsmon
Derbyniwyd 1
Gwrthodwyd 3
Datryswyd 2 yn gynnar

# Cam 1

### Natur y gŵyn – Y 3 Uchaf

| | |
|---|---|
| 22 | Ansawdd y Gwasanaeth |
| 13 | Diffyg/Oedi o ran y gwasanaeth |
| 11 | Diffyg Gwybodaeth/Cyfathrebu |

Cydnabuwyd o fewn yr amserlen

| | |
|---|---|
| Statudol | 100% |
| Corfforaethol | 100% |

Ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen

| | |
|---|---|
| Statudol | 67% |
| Corfforaethol | 100% |

# Cam 2

### Natur y gŵyn – Y 3 Uchaf

| | |
|---|---|
| 8 | Ansawdd y Gwasanaeth |
| 3 | Diffyg Gwybodaeth/Cyfathrebu |
| 2 | Diffyg/Oedi o ran y gwasanaeth |

| | |
|---|---|
| 3 | Cadarnhawyd |
| 4 | Heb eu cadarnhau |
| 86% | Ymatebwyd iddynt o fewn 6 mis |

# Hyfforddiant



| | |
|---|---|
| 8 | Sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd |
| 126 | Staff yn bresennol |

# Canmoliaeth Plant a Theuluoedd

**Canmoliaeth a ddaeth i law**
**12**

**Y 3 Tîm Uchaf**

| | |
|---|---|
| 5 | Cymorth a Diogelu |
| 4 | Cymorth Cynnar ac Asesu |
| 3 | Cymorth i Deuluoedd ac Adnoddau |

# Cwynion Plant a Theuluoedd

**Cwynion a ddaeth i law**
**83**

| | |
|---|---|
| 66 | Cam 1 |
| 17 | Cam 2 |
| 48 | Ailgyfeirio / Dim camau pellach / Wedi'i Oedi |

Derbyniwyd 0 cwyn y tu allan i'r amserlen o 12 mis

Cafodd 2 eu gwrthod

Aeth 11 o gŵynion i'r Ombwdsmon
Derbyniwyd 2
Gwrthodwyd 8
Datryswyd 1 yn gynnar

## Cam 1

### Natur y Gŵyn – Y 3 Uchaf

| | |
|---|---|
| 19 | Ansawdd y Gwasanaeth |
| 16 | Ymddygiad Staff |
| 9 | Ymateb i bryderon |

**Cydnabuwyd o fewn yr amserlen**

| | |
|---|---|
| Statudol | 95% |
| Corfforaethol | 78% |

**Ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen**

| | |
|---|---|
| Statudol | 45% |
| Corfforaethol | 89% |

## Cam 2

### Natur y Gŵyn – Y 3 Uchaf

| | |
|---|---|
| 7 | Ansawdd y Gwasanaeth |
| 4 | Canlyniadau'r Asesiad |
| 3 | Ymateb i bryderon |

**Cam 2 wedi dod i ben**

| Statudol | | Corfforaethol |
|---|---|---|
| 8 | Statudol / Corfforaethol | 1 |
| 3 | Cadarnhawyd | 1 |
| 5 | Ni chadarnhawyd | 0 |
| 88% | Ymatebwyd iddynt o fewn 6 mis | 100% |

# Hyfforddiant



| | |
|---|---|
| 2 | Sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd |
| 49 | Staff yn bresennol |

**Enghreifftiau o Gŵynion/Sylwadau Cyfnod 1 Statudol:**

| **Cwyn/Sylw**<br>Ynghylch canlyniad yr asesiad. |
|---|
| **Canlyniad:** Ailasesiad o'r angen i'w gynnal ynghyd ag asesiad gofalwyr. |

| **Cwyn/Sylw**<br>Ynglŷn â rhannu gwybodaeth amdanynt. |
|---|
| **Canlyniad:** Esboniad a sicrwydd yn cael ei gynnig. |

**Enghraifft o Gŵyn/Sylw Cam 2:**

| **Cwyn**<br><br>Ynglŷn â'r gofal a gafwyd yng nghartref gofal yr awdurdod lleol a'r ymholiad diogelu dilynol |
|---|

## Camau Nesaf 2025/26

Mae'r camau a'r mesurau allweddol a amlinellir yn y cynllun busnes yn nodi sut rydym yn bwriadu rhoi hyn ar waith. Eleni byddwn yn canolbwyntio ar amcanion strategol:

### Plant a Theuluoedd

| | |
|---|---|
| 1 | Cyfrannu at waith y Bartneriaeth Ranbarthol i gytuno ar flaenoriaethau a chael buddsoddiad i ddatblygu arferion arloesol a gwasanaethau integredig trwy fodel cymdeithasol o ymyrraeth yn enwedig mewn perthynas â 1. llwybr NDD a 2. y plant a'r bobl ifanc yng 'nghanol coll' iechyd meddwl. |
| 2 | Cyflwyno cynnig seibiant byr newydd i blant anabl. |
| 3 | Sicrhau gwasanaeth cymorth cynnar effeithiol sy'n helpu teuluoedd i wneud y newidiadau sydd eu hangen ar blant fel bod llai o blant yn symud ymlaen i lwybr amddiffyn plant, a gall plant aros gartref/dychwelyd adref yn ddiogel. |
| 4 | Cynyddu capasiti'r gwasanaeth maethu i reoli'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gwella cyfraddau recriwtio a chadw a chymorth i Ofalwyr Maeth, er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o leoliadau maeth mewnol i ddiwallu anghenion amrywiol plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin. |
| 5 | Rhoi rhaglen strategol ar gyfer gwasanaethau preswyl ar waith, gan gynnwys caffael, adnewyddu a datblygu dau gartref newydd i blant, er mwyn diwallu'r amrywiaeth o anghenion sydd gan blant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin. |
| 6 | Datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol gan hyrwyddo perchnogaeth ac atebolrwydd ar draws y cyngor fel Rhiant Corfforaethol er mwyn sicrhau bod gan ein plant sy'n derbyn gofal a'n rhai sy'n gadael gofal bob cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. |

## Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Integredig

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Byddwn yn parhau i weithio gyda thai a phartneriaid eraill i ddatblygu ystod o gynigion llety i helpu pobl i fyw'n dda, gyda modelau gofal a chymorth y mae hyrwyddo annibyniaeth a chanlyniadau wrth eu gwraidd. | CBS |
| 2 | Byddwn yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth ranbarthol i ofalwyr a chynllun gweithredu lleol cysylltiedig | CBS |
| 3 | Byddwn yn cyfrannu at ddatblygu Strategaeth atal ar gyfer Gofal Cymdeithasol trwy barhau i weithredu'r fframwaith trydydd sector sydd wedi creu pum hwb cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu trafnidiaeth gymunedol. | CBS |
| 4 | Datblygu un pwynt mynediad ar gyfer gofal brys ac ymateb i argyfwng, a fydd ar gael 7 diwrnod yr wythnos. (8am - 8pm) | IS |
| 5 | Gweithio gyda Hywel Dda, CGI a Llesiant Delta i greu platfform er mwyn cael golwg gyflawn ar berson i gefnogi casglu gwybodaeth i ymateb yn effeithiol. | IS |
| 6 | Byddwn yn datblygu Cynllun Datblygu'r Gweithlu cadarn ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | IS |
| 7 | Byddwn yn cynyddu nifer yr unedau llety 15% o fewn y 12 mis nesaf i ateb ein galw newydd a chefnogi pobl sy'n camu i lawr o ofal preswyl. | AS |
| 8 | Byddwn yn sefydlu 6 chyfleuster byw â chymorth newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2026 gan ddarparu llety, gofal a chymorth ychwanegol i 25 o bobl eraill. | AS |
| 9 | Byddwn yn tyfu Darpariaeth Gofal Cartref Fewnol gynaliadwy ar draws grwpiau poblogaeth trwy recriwtio a hyfforddi 25 o weithwyr gofal cartref newydd erbyn Medi 2025. | AS |

# Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos - Oedolion Hŷn**

Mae gan Mr P, sy'n 76 oed, ddiagnosis o Ddementia ac roedd yn byw gyda'i wraig yn y gymuned. Yn dilyn digwyddiad gartref cafodd ei roi mewn lleoliad preswyl tymor byr lle arhosodd am tua 4 mis. Cafodd yr achos ei roi i mi pan ddywedodd ei wraig ei bod yn dymuno ei fod yn dychwelyd adref. Roedd pryderon am hyn oherwydd yr achos o ymddygiad treisgar yn gorfforol a arweiniodd at ei leoliad, ac yn y cartref gofal roedd yn dangos ymddygiadau a allai fod wedi bod yn anodd eu rheoli yn y gymuned. Fodd bynnag, barnwyd mai'r unig ffordd o weld a fyddai ef a'i wraig yn ddiogel ac a fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu fyddai trefnu treial gartref.

Fe wnes i fynd â Mrs P i'r cartref gofal i dreulio ychydig oriau gyda'i gŵr. Roedd hyn yn fy ngalluogi i gasglu gwybodaeth anuniongyrchol ac arsylwi ar y rhyngweithio rhyngddynt. Er bod Mr P yn cael trafferth â'i leferydd ac yn ei chael yn anodd ffurfio brawddegau dealladwy oherwydd ei Ddementia; pan ofynnais pwy oedd y wraig hon, gan bwyntio at Mrs P, dywedodd 'hi yw fy nghariad 100%'. Rwy'n deall eu bod wedi cael priodas hapus iawn a chariadus am tua 34 mlynedd.

Cwblhawyd asesiad o'i alluedd meddyliol, a barnwyd na allai wneud penderfyniadau am ei anghenion gofal a lle roedd yn byw. Cafwyd trafodaethau am ei fudd pennaf, ac er bod y cartref gofal a'r nyrs seiciatrig gymunedol iechyd meddwl yn poeni rhywfaint am hynny, penderfynwyd mai rhoi cynnig ar bethau gartref fyddai orau iddo.

Roedd pryderon ynghylch a fyddai Mr P yn gallu ymdopi â'r staer gartref, ac nid oedd yn bosibl gweld hyn cyn iddo ddychwelyd adref, felly gwnaed cynllun wrth gefn. Felly trefnwyd pe na bai'n gallu dod i ben â'r staer, byddai'n gallu cysgu yn yr ystafell fyw ar wely-soffa am ychydig nes bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud. Mae wedi cael ei gyfeirio at yr Adran Tai ac mae ar y rhestr ar gyfer asesiad lifft grisiau.

Gwnaed trefniadau ar gyfer pecyn gofal sylweddol gan gynnwys gofal cartref (gofalwyr dwbl) i ddiwallu anghenion gofal personol ac ymataliaeth, gofal amgen i alluogi ei wraig i gael peth amser i'w hun heb boeni'n ormodol, a gofal seibiant mewn argyfwng a/neu mewn ffordd wedi'i chynllunio. Datblygwyd hyn yn unol â'r ymddygiadau roedd Mr P yn eu dangos a'r ymyriadau bu'n rhaid i'r staff yn y cartref gofal eu gwneud, yn ôl eu cofnodon a siarad â staff.

Dychwelodd Mr P adref er mawr lawenydd i'w wraig, a oedd wedi dweud wrtha i ei bod wedi gweld ei eisiau'n ofnadwy pan nad oedd yno. Pan es i yno, roedd hefyd yn ymddangos yn gyfforddus iawn ac wedi ymlacio yn ei amgylchedd ei hun.

Roeddwn i'n gallu trefnu bod y cymorth gofal cartref yn dod i ben gan nad oedd ei angen mwyach.

Roeddwn i'n monitro'n aml ar y dechrau rhag ofn bod angen ymateb cyflym, pe bai unrhyw ymddygiad ymosodol. Er syndod, ar ôl cyfnod byr yn yr ysbyty achos Covid-19 a chlust tost ychydig ddyddiau wedi iddo ddychwelyd adref, fe setlodd yn rhyfeddol o dda. Roedd yr asiantaeth gofal yn gallu bod yn hyblyg mewn perthynas â'r alwad foreol i alluogi Mr a Mrs P i barhau â'u hanghenion crefyddol trwy wylio gwasanaeth crefyddol bob bore. Mewn gwirionedd, setlodd Mr P mor dda roedd yn gallu golchi ei hun yn annibynnol, gydag ychydig iawn o gymorth gan ei wraig, ac yn y pen draw roeddwn yn gallu dod â'r cymorth gofal cartref i ben gan nad oedd ei angen mwyach.

Trefnwyd gofal amgen i alluogi Mrs P i fynd i siopa ar y bws dau fore'r wythnos. Llwyddodd Mr P i ailddechrau gwneud hyn hefyd, a chafodd groeso ar y bws gan ei gyd-deithwyr pan dychwelodd ac roedd yn hapus i fynd rownd y siopau gyda'i wraig, a hynny heb unrhyw drafferthion. Maent yn mynd am dro hir yn rheolaidd o amgylch eu stad dai er mwyn adennill ffitrwydd corfforol, a oedd wedi dirywio yn ystod y lleoliad oherwydd diffyg ymarfer corff.

Yn ystod y cyfnod byr o fonitro agos, cafwyd ymweliad gan y Nyrs Seiciatrig Gymunedol a'r Eiriolwr Annibynnol ac roeddent yn hapus â'r sefyllfa a daethant â'u cyfranogiad i ben. Roeddwn hefyd wedi gwneud atgyfeiriad i'r Nyrs Admiral er mwyn cefnogi Mrs P mewn perthynas â'r ffordd orau o ddelio ag unrhyw ymddygiad ac ar ôl ymyriad byr mae'r gwasanaeth hwn hefyd wedi dod i ben. Ar hyn o bryd mae Mr a Mrs P bellach yn byw'n annibynnol heb wasanaethau yn eu cartref eu hunain, ac mae Mrs P yn ymwybodol o sut i ail-gyfeirio pan / os bydd yr angen yn codi.

**Astudiaeth Achos - Tîm Llesiant Iechyd Meddwl mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r prosiect celcio newydd**

Mae'r tîm llesiant wedi bod yn cynorthwyo unigolyn a wynebai sefyllfa lle roedd ei gartref ar fin cael ei adfeddiannu. Gyda'r gefnogaeth a ddarparwyd, llwyddwyd i atal yr adfeddiannu gan ei fod yn cael effaith negyddol dros ben ar ei iechyd meddwl. Rhoddwyd help i'r unigolyn gyfathrebu â'i gwmni morgeisi, ac yn y pen draw penderfynodd werthu ei gartref.

Mae gan yr unigolyn dueddiadau celcio hefyd, ac roedd ei gartref, ac nid ystafelloedd sbâr yn unig, yn orlawn o eitemau. Ar adegau roedd arno angen cymorth iechyd meddwl ychwanegol, a threfnodd y Tîm Llesiant ymyriad tymor byr gan y tîm argyfwng lleol.

Cafodd gymorth ymarferol ac emosiynol gan y tîm i gael trefn ar ei bethau. Rhoddwyd rhai eitemau i elusen, ac aethpwyd ag eraill i ganolfan loches. Roedd y broses hon yn hynod heriol iddo, gan fod arwyddocâd personol ac atgofion yn perthyn i nifer o'r eitemau.

Yn fwy diweddar, derbyniodd yr unigolyn arian gan gronfa anghenion y cleient, a olygodd ei fod wedi gallu llogi sgip 8 llath. Golygodd hyn y gallai glirio gwastraff gardd, gan fynd i'r afael â chwynion gan iechyd yr amgylchedd.

Mae cymorth parhaus wedi cael ei ddarparu gan y Tîm Llesiant, ac mae'r unigolyn hefyd wedi mynychu grŵp cymorth celcio yn MIND. Yno, mae wedi derbyn cefnogaeth gan eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg, yn ogystal ag arweiniad gan weithwyr proffesiynol sy'n trefnu'r grŵp. Mae hyn wedi rhoi'r gallu iddo adael ei gartref yn rheolaidd i fynychu'r sesiynau hyn, lle mae'n cysylltu ag eraill ac yn parhau i wneud cynnydd yn ei daith.

**Janine - Astudiaeth Achos**

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru**

**Moyna - Astudiaeth Achos**

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru**